

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

ADRODDIAD BLYNYDDOL



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol  Clinigol
Clinical Futures

Beth fydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn ei ddweud wrthy ch i?

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n egluro ein sefydliad, y gwasanaethau a'r gofal rydyn ni'n eu darparu a'r hyn rydyn ni'n ei wneud i gynllunio, cyflenwi a gwella gofal iechyd i chi. Mae'n darparu gwybodaeth am sut roedden ni'n perfformio yn 2019/20, yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni, sut rydyn ni'n bwriadu parhau i wella'r flwyddyn nesaf a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn egluro pa mor bwysig yw hi i ni weithio gyda chi a gwrando ar eich barn, i gyflenwi gwell gwasanaethau sy'n cyflawni eich gofynion mor agos i'ch cartrefi ag sy'n bosibl.

Llunnir ein blaenoriaethau gan ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), sy'n amlinellu ein hamcanion a'n cynlluniau dros y tair blynedd nesaf. Gallwch ddarllen y cynllun a darganfod mwy am ein Bwrdd Iechyd yn:

bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol

Mae ein Hadroddiad Blynyddol 2019/20 yn cynnwys:

- Ein **Hadroddiad Perfformiad** (dogfen ar wahân) gyda manylion am sut roedden ni'n perfformio yn erbyn ein targedau a'r camau a gynllunnir i gynnal neu wella ein perfformiad. Gellir gweld hwn yn: bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol
- Ein **Hadroddiad Atebolrwydd** (dogfen ar wahân) gyda manylion am ein gofynion atebolrwydd allweddol ac sy'n rhoi gwybodaeth am sut rydyn ni'n rheoli ein hadnoddau, yn canfod ac yn ymateb i'n risgiau ac yn cydymffurfio gyda'n trefniadau rheolaeth ein hunain. Gellir gweld hwn yn bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol
- Ein **Datganiad Ariannol, Cyfrifon Blynyddol a'n Datganiad Rheolaeth Blynyddol** (dogfennau ar wahân) gyda manylion am sut rydyn ni wedi gwario ein harian ac wedi cyflawni ein goblygiadau. Gellir gweld y rhain yn: bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol
- Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynhyrchu **Datganiad Ansawdd Blynyddol** (dogfen ar wahân), gyda manylion am gamau a gymerwyd i wella ein gwasanaethau. Mae ar gael yma: bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol

Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Y Pencadlys, Ysbyty Sant Cadog

Ffordd y Lodge, Caerllion, Casnewydd, NP18 3XQ

Ffôn: 01633 436700, neu e-bost abhb.enquiries@wales.nhs.uk

Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'n hyfryd gallu cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2019/20 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gwelodd y Bwrdd Iechyd, ynghyd â sefydliadau GIG eraill, alwadau digynsail ar ein gwasanaethau oherwydd Pandemig COVID-19. Roedd hyn yn gofyn am newidiadau ac addasiadau i'r modd roedden ni'n cyflenwi ein gwasanaethau ac yn rheoli ein sefydliad. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cydnabod yr amgylchiadau anghyffredin hyn a'r gwaith anhygoel a wnaethpwyd gan ein staff a'n partneriaid i ymateb i'r Pandemig. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud fel sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf, yn amlygu rhai o'n heriau parhaus a hefyd yn dathlu llwyddiannau'r Bwrdd Iechyd ac yn benodol y timau ac aelodau unigol y staff sydd wedi gwneud y cynnydd hwn yn bosibl yn ystod 2019/2020.

Dywedwyd mewn adroddiadau blaenorol bod ein staff yn parhau i fod ein hased mwyaf ac mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn arbennig yn ystod y Pandemig, yn pwysleisio eto'r datganiad hwn. Oherwydd ymrwymiad a gwaith called ein holl staff a'r rhai sy'n gweithio gyda ni, y llwyddwyd i wneud cynnydd go iawn er budd y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae ein staff yn parhau i ymddangos ar restrau byr gwobrau ac yn cael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am y gwaith rhagorol maen nhw'n ei gyflawni. Byddwch yn gweld nifer o enghreifftiau o hyn yn yr Adroddiad hwn.

Llwyddwyd i wneud cynnydd sylweddol gyda gweithredu ein Rhaglen Dyfodol Clinigol. Mae adeiladu ein hysbyty newydd sbon yng Nghwmbrân, Ysbyty Athrofaol y Faenor wedi gwneud camau breision ac mae gennym gynlluniau i agor yr ysbyty'n gynnar yn Hydref 2020, i gefnogi ein hymateb parhaus i'r Pandemig a'n cynlluniau ar gyfer gwasanaethau yn ystod y gaeaf. Fodd bynnag, mae'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud yn mynd yn llawer pellach nag un Ysbyty newydd. Rydyn ni'n ail-gynllunio ein gwasanaethau GIG lleol i'w gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol ac mae hyn yn cynnwys symud mwy o'n gwasanaethau i mewn i'n cymunedau ac yn nes at y bobl sydd angen eu defnyddio. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn ymgysylltu ymhellach gyda'n cymunedau, partneriaid a'r holl fudd-deiliaid i egluro sut bydd system ein Gofal Iechyd yn ymddangos yn y dyfodol. Yn fwy pwysig, hoffem sicrhau bod y cleifion a'r cyhoedd yn ymwybodol o le mae gwasanaethau wedi'u lleoli ac yn cael eu darparu a sut a phryd y dylen nhw gael mynediad iddyn nhw.

Gobeithiwn y byddwch chi'n gweld o'r Adroddiad hwn ein bod hefyd yn sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddysgu a gwella er budd ein cleifion a'n

staff. Rydyn ni wedi bod yn dysgu o brofiad y Pandemig a byddwn yn ceisio mabwysiadu trefniadau newydd sydd wedi cael effaith positif fel cyfarfodydd rhithiol, i ddarparu gwybodaeth ac ymgysylltu drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol a chynnal Ymgynghoriadau Rhithiol gyda'n cleifion. Wrth i gyfleoedd a thechnolegau newydd ymddangos, rhaid i ni addasu a gwella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i sicrhau bod y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu'n derbyn y safonau gofal uchaf. Nid yw aros yn yr unfan yn opsiwn ac nid yw wedi bod erioed. Mae gan y GIG y gallu i ddatblygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn gwneud y gorau posibl i gyflawni anghenion y bobl a darparu'r gofal gorau posibl. Mae ein Rhaglen Dyfodol Clinigol a gefnogwyd gan ymgynghoriad Cyhoeddus ac ar yr hwn rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu a chyfathrebu, yn newid y modd y mae ein gwasanaethau'n cael eu cyflenwi i ddarparu gofal rhagorol yn y lle cywir ar yr amser cywir i bob claf rydyn ni'n ei wasanaethu.

Mae'r dulliau hyn o barhau i ddatblygu ac arloesi hefyd yn cefnogi ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ymateb i ddyheadau Llywodraeth Cymru am 'Gymru Iachach'. Rydyn ni'n parhau i ddangos cynnydd wrth gyflenwi ein hamcanion Llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel yr amlinellir yn hwyrach yn yr adroddiad hwn. Hefyd, ein trefniadaeth partneriaeth ranbarthol i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn darparu Gwasanaethau Iechyd a Gofal integredig ar draws ardal Gwent.

Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar ansawdd gofal a diogelwch cleifion ac mae hyn wedi bod yn ffocws arbennig i ni yn ystod Pandemig COVID-19. Rydyn ni hefyd yn annog ein cymunedau lleol i wella eu Hiechyd a'u Llesiant eu hunain, ynghyd ag aros yn ddiogel. Oherwydd y Pandemig, rydyn ni'n awr yn gweithio'n agosach nag erioed gyda'n partneriaid fel Awdurdodau Lleol, Sefydliadau'r Trydydd Sector a threfniadau ein Partneriaeth Ranbarthol, i annog pobl i wella eu Hiechyd ac amddiffyn eu hunain ac eraill. Ein hymdrech gyson yw sicrhau bod gwasanaethau'n addasu ac yn ymateb i wahanol alwadau ac anghenion ac i fanteisio ar dechnolegau newydd a dulliau eraill fydd yn caniatáu i ni ymgysylltu â'n cymunedau ac annog eu hymrwymiad a'n cyfranogiad yn yr agwedd hon.

Roedden ni'n falch ein bod, yn ystod y flwyddyn, yn parhau i gyflenwi yn erbyn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig Tair Blynedd (IMTP); gwelir tystiolaeth o hyn drwy'r Adroddiad. Mae cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru yn ein cynlluniau'n dangos ei hyder yn ein gallu i gyflenwi ac i barhau i ddatblygu ein gwasanaethau. Llwyddwyd i gyrraedd ein targed o adennill costau ar ein cyllideb o ychydig dros £1.2 biliwn. Mae hyn yn llwyddiant sylweddol o gofio'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r GIG.

I gloi, hoffem bwysleisio bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i barhau i symud ymlaen wrth i ni ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn nesaf a pharhau i ymateb i'r Pandemig COVID-19 a'i effaith. Hefyd, byddwn yn gwireddu ein Rhaglen Dyfodol Clinigol ac agoriad swyddogol Ysbyty Athrofaol y Faenor. Wrth ddatblygu'r gwelliannau a'r datblygiadau hyn, byddwn yn parhau i gyflawni ein busnes yn agored ac yn dryloyw, yn darparu gwybodaeth am ein perfformiad i'r cyhoedd ac yn ymgysylltu'n actif gyda phobl leol a'n partneriaid.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am ein gwasanaethau i'ch sicrhau bod y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn effeithlon, yn effeithiol ac o'r ansawdd gorau a gyda diogelwch o'r radd flaenaf.

Rydyn ni'n ddiolchgar am y gefnogaeth a'r adborth a dderbyniwn oddi wrth ein cymunedau lleol a hoffem barhau i glywed gennych. Gallwch ein gweld ar Facebook, Twitter ac Instagram, neu gallwch ddod i un o'n digwyddiadau lleol neu gyfarfodydd Bwrdd rheolaidd sy'n agored i'r cyhoedd ac ar hyn o bryd yn cael eu ffrydio ar eich sianel Youtube. Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan sydd wedi'i diweddarau a'i hail lansio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ychwanegol at yr adroddiad hwn, mae ein Datganiad Ansawdd Blynyddol, y Datganiad Rheolaeth Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn rhoi mwy o fanylion am y cynnydd a wnaed ym mhob maes allweddol. Gellir gweld yr holl ddogfennau hyn ar ein gwefan:

bipab.gig.cymru

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad hwn a'i fod yn rhoi gwell mewnwelediad i chi i'r gwaith a wneir a'r cynnydd a wnaed gennym fel sefydliad ac mewn partneriaeth gydag eraill yn ystod 2019/20.



Ann Lloyd CBE
(Cadeirydd)



Judith Paget CBE
(Prif Weithredwr)

1. Ein Sefydliad

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 a chafodd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013. Rydym yn gwasanaethu poblogaeth o fwy na 639,000 o bobl, sef tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Gyda chyllideb o **£1.2biliwn**, rydym yn cyflenwi gwasanaethau gofal iechyd i bobl ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a hefyd yn darparu rhai gwasanaethau i bobl De Powys.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein sefyllfa ariannol drwy ddarllen ein Hadroddiad Atebolrwydd a'r Cyfrifon Ariannol 2019/20: bipab.qig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol



Cawn ein rheoli gan Fwrdd sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau am ein holl wasanaethau a'r gofal sy'n cael eu darparu yn ein hardal. Yn 2019/20, Cadeirydd y Bwrdd oedd Ann Lloyd ac roedd yr Arweiniad Gweithredol a'r cyfeiriad yn cael eu darparu gan Judith Paget, ein Prif Weithredwr a'r Swyddog Atebol.

Yn ystod 2019/20, roedden ni'n parhau gyda'n gweledigaeth a'n prif flaenoriaethau;

- Gwellu iechyd y Cyhoedd drwy weithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo ffordd o fyw iach a sicrhau bod mynediad ar gael i wasanaethau ataliol yn arbennig i'r rhai mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.
- Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y claf.
- Sicrhau diogelwch, rhagoriaeth ac ansawdd ym mhob un o'n gwasanaethau bob amser.
- Ymddiried yn a chefnogi ein staff i wneud y penderfyniadau cywir i gleifion ac i wella iechyd.
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon i sicrhau ein bod yn darparu ansawdd uchel a gofal cleifion gwerth am arian.




Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd sy'n canolbwyntio ar gleifion, sy'n ddiogel, agored a doeth. Mae'r Bwrdd yn gosod yr amcanion strategol, yn monitro cynnydd, yn cytuno ar y camau i gyflawni'r amcanion hyn ac yn sicrhau bod rheoliadau priodol mewn lle a'u bod yn gweithio'n iawn ar draws y sefydliad.

Mae ystod eang o Bwyllgorau a Grwpiau Cyngori hefyd yn cefnogi gwaith y Bwrdd. O dan gadeiryddiaeth Aelodau Annibynnol y Bwrdd, maen nhw'n craffu, yn cynnal trafodaethau datblygiad, yn asesu prif risgiau ac yn monitro perfformiad yn erbyn cynlluniau'r Bwrdd Iechyd.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein Sefydliad, ein Pwyllgorau a'n Strwythurau yn ein Hadroddiad Atebolrwydd a'n Datganiad Rheolaeth Blynnyddol (dolen isod):

bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol



1.1 Gwerthoedd a Chenhadaeth ein Bwrdd Iechyd

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn anelu at ragoriaeth ym mhob peth rydyn ni'n ei wneud ac yn annog yn weithredol ddiwylliant o ofal a thosturi, parch, gonestrwydd a gwaith tîm.

Byddwn yn asesu ac yn herio gwasanaethau'n gyson i geisio gwella i gyfateb a, lle mae hynny'n bosibl, wella ar safonau cenedlaethol. Byddwn yn ceisio dysgu o lwyddiant a chanfod lle gellir gwella pethau.

Mae'r uchelgais hwn hefyd yn cael ei yrru gan ymrwymiad i gydweithio ac ymgysylltu â chleifion, cymunedau, staff, sefydliadau partner, budd-ddeiliaid eraill a Llywodraeth.

Credwn mewn rhoi pobl yn gyntaf, gyda staff yn cymryd cyfrifoldeb personol dros ddiogelu ein cleifion, meithrin angerdd cryf i wella wrth gyflenwi gwasanaethau a sicrhau bod hyrwyddo balchder wrth gyflenwi gwasanaethau yn symbylu gwelliannau mewn profiadau cleifion.



Mae ein gwerthoedd a'n cynlluniau wedi bod o hyd â ffocws cryf ar gyflenwi gwasanaethau diogel a rhai o safon uchel. Mae hyn yn hynod bwysig wrth i alwadau ar ein gwasanaethau Iechyd gynyddu, wrth i boblogaethau gynyddu a phobl yn byw'n hŷn (gan eu gwneud yn fwy tebygol o fod angen mynediad i wasanaethau Iechyd) ac wrth i ni gynllunio ac ymateb i Argyfyngau Iechyd Mawr fel Pandemig COVID-19.

Rydyn ni'n benderfynol bod ein gwerthoedd, a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diweddar, yn cael eu gwireddu ac yn parhau i gael eu cynnal. Hefyd ein bod yn agored a thryloyw gyda'n cleifion a'r cyhoedd rydyn ni'n eu gwasanaethu, yn gwrando arnyn nhw ac yn ymgysylltu gyda'n cymunedau, cleifion, staff a phartneriaid wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau o'r safon uchaf, yn arbennig wrth wireddu ein Rhaglen Dyfodol Clinigol fawr.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein cyfathrebu a'n hymgysylltu â'r cyhoedd ar Dudalen 27 yr adroddiad hwn.



Rheoli Risg

Mae'r risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd yn newid yn gyson, Gall rhai risgiau effeithio ar gyflawni ein hamcanion ac mae'n rhaid trefnu camau i'w lleddfu'n effeithlon.

Mae llwyddo i reoli'r risgiau sy'n affeithio ar ein Gwasanaethau Clinigol yn helpu i sicrhau ein bod yn darparu safon uchel a gofal iechyd diogel i bobl leol a bod amgylchedd gwaith cefnogol yn cael ei ddarparu i'n staff.

Yn ystod 2019/20, roedden ni'n adennill y costau ariannol yn llwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn a hefyd yn cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd a Strategaeth Rheoli Risg i arwain y gwaith hwn.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am sut rydyn ni'n rheoli risg drwy ddarllen ein Hadroddiad Atebolrwydd, y Datganiad Rheolaeth Blyneddol a'r Cyfrifon Ariannol 2019/20 drwy ddilyn y ddolen isod:
bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol

1.2 Ein Cynllun

Bob blwyddyn, disgwylir i ni ddiweddarau ein **IMTP tair blynedd (Cynllun Tymor Canolig Integredig)** sy'n amlinellu sut byddwn ni'n atgyfnerthu, moderneiddio a datblygu ein gwasanaethau i gyflawni anghenion iechyd a gofal pobl yn ein cymunedau'n well. Rhaid gwneud hyn o fewn yr arian a ddyrannwyd i ni gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd ein IMTP tair blynedd gyntaf ym mis Mehefin 2015, ac adeiladwyd cynlluniau dilynol ar lwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd o'n cynlluniau a gymeradwywyd dros y pedair blynedd ddiwethaf. Wrth i'r Pandemig COVID-19 ddatblygu, sefydlodd Llywodraeth Cymru weithdrefn gynllunio chwarterol newydd a gohiriwyd y broses IMTP dros dro. Fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn, mae mwy o wybodaeth o safbwynt y newid hwn a'r gwaith



a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i barhau i gyflawni amcanion ein IMTP yn ystod y llynedd ac ymateb i'r gofynion newydd hyn.

Gallwch ddarllen y cynllun llawn ar ein gwefan:

bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol

Rydyn ni'n gweithio ar draws nifer o gymunedau, systemau a gwasanaethau; ein huchelgais - **gwella Iechyd a Llesiant y boblogaeth rydyn ni'n ei gwasanaethu a gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu'r gofal mwyaf yn nes i'w cartrefi**- bydd yn llwyddo dim ond os bydd yn adlewyrchu anghenion ein cleifion a'i fod wedi'i alinio i'r cynlluniau a blaenoriaethau ein partneriaid. Rydym yn croesawu cyflawni a pharhau i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn gamau positif tuag at integreiddio agenda a chynlluniau'r holl sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflenwi cefnogaeth bositif a newid i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae ein cynllun yn parhau i gynnwys y camau nesaf ar gyfer ein Rhaglen Dyfodol Clinigol. Bydd Ysbyty Athrofaol y Faenor, Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol, yn atgyfnerthu ein Gwasanaethau Aciwt ac mae'n elfen graidd o'r system gofal iechyd diogel a chynaliadwy rydyn ni'n anelu at eu darparu ar gyfer y 600,000 o bobl a mwy rydyn ni'n eu gwasanaethu. Datblygwyd cynlluniau i agor yr Ysbyty newydd ym mis Tachwedd 2020, fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer ymateb i COVID-19 a'r gaeaf nesaf.

Ei Huchelgais Newid

Yn ein hardal ni, mae pobl yn gofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a'u teuluoedd. Pan fyddan nhw angen help, mae hwn ar gael yn hawdd gartref ac yn eu cymuned ac yn cael ei gefnogi drwy dechnoleg arloesol.

Rydyn ni'n gweithio mewn system fodern sydd, gyda phartneriaid, yn cyflawni deilliannau o'r safon gorau, drwy ddefnyddio arfer gorau yn y lleoliad mwyaf priodol. Mae ein gwasanaethau'n darparu gofal holl holistaidd o gartref i gartref ac yn datblygu'n barhaol er mwyn bod ar y brig.

Cyflenwir gofal tosturiol gan dimau creadigol talentog rydyn ni'n ymddiried ynddyn nhw ac yn eu parchu i roi gofynion ein cleifion yn ganolog i bopeth rydyn ni'n ei wneud.

Dywed ein staff wrthym eu bod yn teimlo bod ganddyn nhw'r pŵer a'r gallu a'u bod yn cael eu harfogi i wneud gwahaniaeth i fywydau a deilliannau pobl. Teimla ein timau bod pobl yn gwrando arnyn nhw, yn ymddiried ynddyn nhw a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Rydyn ni'n sefydliad deinamig sy'n gofalu, dysgu a gwella gyda'n gilydd.

Rydyn ni, fel pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, yn profi heriau digynsail ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ffurf Pandemig Byd-eang COVID-19, poblogaethau sy'n heneiddio, nifer cynyddol o bobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd tymor hir ynghyd â disgwyliadau cynyddol cleifion, adnoddau cyfyngedig a heriau Gweithlu. Ar wahân i'r heriau hyn, rydyn ni wedi ymrwymo i drin pob claf o dan ein gofal gyda pharch, tosturi a charedigrwydd gan gynnal eu hurddas bob amser.

Rydyn ni'n hyderus y bydd ein cynllun yn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa gref i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn ddiogel, yn effeithlon ac yn drefnus er mwyn cyflenwi'r deilliannau gorau posibl i'r rhai sy'n eu defnyddio.

Byddwn yn cyflawni ein Huchelgais Newid drwy weithio'n arloesol a thrwy weithio mewn partneriaeth gyda'n staff, partneriaid a'n cymunedau lleol. Ar yr un pryd, byddwn yn cyflawni newid sy'n ein helpu'n gyson i gyflawni ein Safonau Ansawdd a Pherfformiad yn y modd mwyaf cost-effeithlon.

- Y gofal cywir
- Yn y lle cywir
- Ar yr amser cywir

DYFODOL
CLINIGOL

Cyflenwi Gofal yn Nes i'ch Cartref



Dyfodol Clinigol
Clinical Futures



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Symud ymlaen

Adlewyrchir uchelgais y Bwrdd Iechyd i gyflenwi gwasanaethau Iechyd i'n poblogaeth leol yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2020/21 - 2021/22 a gymeradwy-wyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cydnabod y cyfleoedd, heriau sylweddol a'r risgiau rydyn ni'n eu hwynebu yn y dyfodol.

Byddwn yn gadarn wrth fonitro a chraffu ar gyflawni ein cynlluniau gan sicrhau y bydd cleifion a'n cymunedau'n gweld buddion hyn.

Hefyd, rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau ail-ffurfweddu ystod o wasanaethau yn ystod y flwyddyn i gyflenwi gwasanaethau'n well i ymateb i anghenion cleifion.

Gallwch ddarllen am rai o'r gweithgareddau hyn yn adran ganlynol yr adroddiad hwn o dan y teitl 'Gofalu Amdanoch Chi'.

Credwn fod tystiolaeth o welliant ar draws ystod o'n gwasanaethau. Er hynny, gwyddom fod rhai heriau real o'n blaen i gyflawni gofynion ein gwasanaethau oherwydd i Bandemig COVID -19 amharu'n sylweddol arnyn nhw.

1.3 Gofalu Amdanoch Chi

Yn ystod 2019/20, roedd nifer o ddatblygiadau o fewn y Bwrdd Iechyd i wella ein gwasanaethau. Mae'r gwelliannau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar safon uchel y gofal rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer ein cleifion a'u teuluoedd.

Isod, mae rhai enghreifftiau o'r datblygiadau rydyn ni wedi'u cyflawni:



Lansio Gwasanaeth 111 o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Lansiwyd 111, y rhif ffôn di-argyfwng gofal iechyd newydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r rhif ffôn 111 newydd yn disodli rhifau gwasanaethau Galw Iechyd Cymru a Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Meddyg Teulu. Gall cleifion yn awr ffonio'r rhif Rhadffôn hawdd ei gofio ar gyfer gwybodaeth a chynghor iechyd ynghyd â mynediad i ofal brys fel Tu Allan i Oriau Meddyg Teulu.

Clinigwyr sy'n arwain y gwasanaeth gyda derbynwyr galwadau wedi'u hyfforddi'n gweithio gyda chlinigwyr fel Meddyg Teulu, Nyrsys, Uwch Ymarferwyr Nyrsio a Fferyllwyr ac mae ar gael 24 awr y dydd i gyfeirio cleifion at y triniaethau mwyaf priodol iddyn nhw.

Creu Gwent Iachach

Lansiwyd strategaeth i "Creu Gwent Iachach" i wella Iechyd a Llesiant pobl.

Mewn rhai ardaloedd o Went, gall pobl ddisgwyl byw 87% o'u bywydau mewn iechyd da. Mewn ardaloedd eraill, dim ond 75% o'u bywydau mewn iechyd da.

Nod y Strategaeth Iechyd Cyhoeddus newydd hon yw parhau i drafod gyda'r cyhoedd, Gweithwyr Proffesiynol Iechyd a Sefydliadau Partner am Grŵp Gwent Iachach a gwireddu hynny.



I gael mwy o wybodaeth am 'Creu Gwent Iachach' ewch i bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol/creu-gwent-iachach/



Well@Home

Nodau Well@Home yw gwella iechyd gwael pobl ag afiechydon cronig y gall effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd eu gwaethygu.

Gall y rhai sy'n berchnogion eu cartrefi

neu sy'n rhentu'n breifat â salwch cronig a dim digon o wres neu'n methu â fforddio gwresogi neu drwsio tai, siarad â Gweithwyr Iechyd Proffesiynol i gael eu hatgyfeirio.

Mae Well@Home yn brosiect tair blynedd tan 2021 ac mae mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Gweler mwy yn y fideo uchod..

Bwrdd Iechyd yn helpu i letya'r Gêmau Trawsblaniadau

Bu'r Bwrdd Iechyd yn rhan o drefniadau Gêmau Trawsblaniadau Prydain ym mis Gorffennaf 2019, ac roedd ein Cadeirydd, Ann Lloyd, yn gweithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Trefnu. Enwyd Casnewydd, y ddinas oedd yn lletya, fel Dinas Rhodd - yr ail ddinas yn unig yn y DU i gael yr anrhydedd hon.



Trefnwyd yr ŵyl pedwar diwrnod o Chwaraeon Trawsblaniadau i godi ymwybyddiaeth rhoi organau ac i annog derbynwyr trawsblaniadau i gymryd rhan mewn ymarfer corff a champau gydag oed y cystadleuwyr o 6 i 75 oed.

Mae bron i 57,000 o drigolion Casnewydd wedi cofrestru yn y penderfyniad optio-mewn ar y Gofrestr Rhoi Organau ac rydym yn dal i weithio'n galed i gynyddu ymwybyddiaeth yn ardal gyfan y Bwrdd Iechyd.

Mis Prysaraf Erioed - mis Rhagfyr

Gwelodd Adrannau Brys y Bwrdd Iechyd eu mis prysaraf erioed ym mis Rhagfyr 2019.

Yn ystod y mis, roedd 14,533 o bobl yn mynychu un o'n Hadrannau Brys - cynnydd o 8% o gymharu â mis Rhagfyr 2018.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a darparwyd Newyddion Lleol i drosglwyddo'r neges bwysig - gall defnyddio'r Gwasanaeth Iechyd cywir arbed eich amser a'ch helpu i gael y gofal cywir yn gyflym. Roedd pobl hefyd yn cael eu cyfeirio at y gwiriwr Symptomau Galw Iechyd Cymru i'w helpu i Ddewis yn Ddoeth.

Roedd haf 2019 hefyd yn un prysur i'n Hadrannau Brys. Ym mis Gorffennaf 2019, roedd cynnydd o 12% yn mynychu o gymharu â misoedd blaenorol gyda Dydd Llun 15 Gorffennaf yn dangos y nifer mwyaf o bobl yn mynychu mewn unrhyw ddiwrnod yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.



Bwrdd Iechyd yn Cymeradwyo Strategaeth Ddigidol

Ym mis Gorffennaf 2019, roedd y Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo ei Strategaeth Ddigidol gyntaf. Yn y Strategaeth, sef 'Trawsffurfiant trwy Ddigidol', mae gweledigaeth a themâu craidd Digidol yn chwarae rôl allweddol yn yr agenda trawsffurfio fel yr amlinellwyd yn uchelgeisiau



'Cymru Iachach' a'n Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae hefyd yn amlinellu'r blaenoriaethau lefel uchel, egwyddorion, goblygiadau a'r camau nesaf wrth weithredu cyfleoedd a datblygiadau digidol cwbl gynhwysol dros y pum mlynedd nesaf a thu

hwnt. Byddwch yn gweld yn yr adroddiad hwn enghreifftiau o ble mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud y gorau o gyfleoedd digidol newydd i'n cleifion, staff a sut rydyn ni'n cyflenwi ein gwasanaethau ac yn cyfathrebu ac ymgysylltu.

Fferyllwyr yn Gweithio mewn Adrannau Brys

Mae Fferyllwyr yn awr yn cyflwyno eu harbenigedd i'r Adrannau Brys i adolygu meddyginiaethau cleifion.

Mae'r fenter yn dilyn peilot llwyddiannus y llynedd (Ionawr i Fawrth 2019) lle'r oedd cyfanswm o 1,310 o gleifion yn cael eu hadolygu gan y Tîm Fferyllol yn Adrannau Brys Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall.



Mae hyn yn sicrhau gofal cyflymach i gleifion tra yn yr Ysbyty; sicrhau eu bod yn mynd adref ynghynt a'u helpu i barhau'n iach gartref.

Dywedodd ymgynghorydd yn Ysbyty Nevill Hall: "Mae hwn wedi bod yn un o'r ymyriadau mwyaf gwerthfawr yn yr Adran Frys."

Cliciwch ar y fideo uchod i ddarganfod mwy ...

Sied Bren yn Helpu Cleifion Iechyd Meddwl

Agorodd y Bwrdd Iechyd weithdy newydd yn Ysbyty Sant Cadog i helpu defnyddwyr ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl.



Roedd y Gôl-geidwad Chwedlonol Neville Southall, eiriolwr dros Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, yn mynychu i agor yn swyddogol 'Y Woodshed'. Mae'r adnodd newydd yn cynnig gweithgareddau ystyrlon i'n cleifion eu mwynhau ac yn gobeithio cynyddu eu Llesiant a rhoi sgiliau

bywyd defnyddiol iddyn nhw.

Cymeradwyo Canolfan Iechyd a Llesiant Tredegar

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynigion ar gyfer Canolfan Iechyd a Llesiant Integredig yn Nhredeg ar safle'r cyn Ysbyty Cyffredinol.

Rydym yn falch iawn o weithio gyda phartneriaid i sicrhau gwasanaethau Gofal Iechyd yn uniongyrchol o fewn y gymuned o adeilad addas i bwrpas o'r safon uchaf. Mae'n dwyn ynghyd Weithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, y Trydydd Sector a darparwyr eraill o dan un to i sicrhau agwedd cydlynol at Iechyd a Llesiant.



Bydd y Ganolfan newydd yn cynnwys:

- Gwasanaethau Meddygon Teulu
- Fferyllfa Gymuned
- Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
- Gwasanaethau Iechyd wedi'u darparu gan y Bwrdd, fel: Iechyd Rhywiol, Podiatreg, Therapi Lleferydd, Awdioleg, Iechyd Meddwl, Dieteteg a Sgrinio Iechyd
- Dechrau'n Deg
- Cyngor ar Bopeth
- Cymorth Llesiant

Bydd datblygu'r Ganolfan Iechyd a Llesiant yn cadw rhan o'r Ysbyty presennol fel 'Calon' yr adeilad newydd. Bydd y 'Galon' hon yn cael ei hintegreiddio'n llwyr i gyflenwi Gwasanaethau Gofal Iechyd a chefnogaeth yr 21ain ganrif a bydd yn parhau i gydnabod pwysigrwydd y safle hwn fel 'man geni'r' GIG.

Gwobr Aur y Lluoedd Arfog

Roedd y Bwrdd Iechyd yn un o gant o gyflogwyr a gafodd wobr am gefnogi'r Lluoedd Arfog. Cydnabuwyd y Bwrdd Iechyd gan y Gweinidog Amddiffyn, Ben Wallace, am ein cefnogaeth i'r gymuned Lluoedd Arfog drwy gael ein cyflwyno gyda Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwr.

Mae'r Gwobrau Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwr y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynrychioli'r bathodyn anrhydedd uchaf sydd ar gael i'r rhai sy'n cyflogi ac yn cefnogi'r rhai sy'n gwasanaethu cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Triniaeth Newydd i'r Brostad

Y Bwrdd Iechyd oedd y cyntaf yng Nghymru i gynnig triniaeth arloesol newydd y Brostad sy'n torri i lawr yn ddramatig ar y cyfnod adfer ac yn lleihau'r risg o gymhlethdodau tymor hir.

Mae Emboledd Gwythïen y Brostad (PAE) yn cynnig triniaeth ychwanegol i'r Tîm Wroleg drwy ddefnyddio'r technegau diweddaraf sydd ar gael gyda ffocws newydd ar atal effeithiau negyddol a chymhlethdodau tymor hir.




Un o'r prif fuddiannau yw llai o amser adfer i gleifion - gan leihau arhosiad un neu ddau ddiwrnod mewn Ysbyty i apwyntiad achos dydd. Mae hyn yn cefnogi Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd drwy newid y modd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, darparu gofal yn nes i gartref y claf a thocio arhosiad mewn Ysbyty.

1.4 Parhau â'n Gofal yn ystod y Pandemig Coronafeirws

Ym mis Mawrth 2020, roedd lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19) ar draws y DU yn Argyfwng Cenedlaethol digynsail a gwelwyd hyn yn tarfu'n sylweddol ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Ardal y Bwrdd Iechyd oedd y lleoliad cyntaf a gwaethaf ar draws Cymru a'r DU i gael ei tharo. Roedd gwybodaeth anghywir yn cael ei throsglwyddo, yn arbennig ar y Cyfryngau Cymdeithasol, ac mewn amser byr, cysylltodd miloedd o drigolion Gwent oedd yn pryderu ac wedi drysu, â'r Bwrdd Iechyd.



Sylweddolwyd yn fuan iawn bod yn rhaid i ni sefydlu'r Bwrdd Iechyd â llais y gellid ymddiried ynddo i drosglwyddo gwybodaeth amserol a chywir. Defnyddiwyd Cyfryngau Cymdeithasol a'r Cyfryngau Priflif i ymateb i sylwadau a chwestiynau, helpu, cynghori, cynnig cyngor, chwalu straeon a gwybodaeth ffug a rhoi sicrwydd i bobl Gwent.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod Clinigwyr oedd yn gweithio o fewn y Bwrdd Iechyd yn agored a gonest am yr hyn oedd yn digwydd y tu mewn i'n Hysbytai gan roi'r wybodaeth a'r arweiniad mwyaf diweddar i'r bobl. Roedd yr Ymgynghorydd Gofal Dwys yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Dr David Hepburn, yn datblygu i fod yn wyneb amlwg i'r ymgyrch gwella yn y rhanbarth. Dangosodd Dr Hepburn fideo yn gyntaf yn datgelu iddo ddal y Coronafeirws, ac, yn aml, roedd yn annog y cyhoedd i ddilyn cyngor Llywodraeth Cymru i aros adref ac osgoi cyswllt cymdeithasol.





Rhybuddiodd Dr Sarah Aitken, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol ac, yn fwy diweddar, Cyfarwyddwr Meddygol Interim, y byddai Gwent yn fuan yn cael ei oresgyn gan y nifer o bobl oedd angen triniaeth arbed bywyd heb “ymdrech fawr” gan bawb i ddilyn cyfarwyddiadau cyfnod clo. Ar yr adeg hon, Gwent oedd yr ardal oedd wedi'i haffeithio waethaf yng Nghymru gyda 309 o'r 628 achos cadarnhaol yng Nghymru.

Roedd ymdrech anferthol gan staff yn gweithio ym mhob rôl o fewn y Bwrdd Iechyd yn sicrhau ein bod yn ail-drefnu 'ein'

hysbytai a'n gwasanaethau i ofalu'n ddiogel am y cleifion â COVID-19 a chleifion nad oedd wedi dal COVID-19, ond a oedd angen gofal a thriniaeth. Er bod ein gwasanaethau wedi cael eu haffeithio'n ddifrifol, oherwydd ein cynllunio, ymateb cydlynol ac ymdrechion ac ymrwymiad gwyd ein staff a'r cyhoedd, llwyddwyd i barhau i gefnogi a gofalu am gleifion oedd yn cael eu derbyn i'n Hysbytai a'r rhai allan yn y Gymuned.

Daeth pobl ar draws Gwent at ei gilydd i ddangos eu gwerthfawrogiad i weithwyr allweddol GIG yn y 'Clap i Ofalwyr' cyntaf erioed a derbyniodd y Bwrdd Iechyd gannoedd o roddion, cyfraniadau a dymuniadau da gan aelodau'r cyhoedd a busnesau lleol i ddiolch iddyn nhw am eu gwaith. Roedd y llif cyhoeddus o werthfawrogiad yn rhoi hwb cwbl angenrheidiol i'n staff ar adeg a oedd yr un mwyaf heriol yn eu gyrfaedd.



Cwblhawyd rhan o Ysbyty Athrofaol y Faenor, a oedd yn wreiddiol i gael ei agor ym mis Mawrth 2021, bron i flwyddyn yn gynnar er mwyn paratoi i gymryd cleifion rhag ofn i'n Hysbytai presennol gael eu gorlifo gan y Pandemig Covid-19. Cyhoeddwyd y prosiect hwn ar 21 Mawrth, deuddydd cyn dechrau'r cyfnod clo. Er bod mwy na 300 o welyau ychwanegol yn barod

yn yr Ysbyty newydd, hyd yn hyn, ni fu eu hangen ac maen nhw'n parhau i fod yn opsiwn rhag ofn i'r Bwrdd Iechyd.



I barhau i roi'r newyddion diweddaraf i'r cyhoedd, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Sesiynau C ac A Byw wythnosol drwy'r cyfryngau cymdeithasol gan alluogi'r cyhoedd i gyfathrebu'n uniongyrchol gyda Meddygon Nyrsys proffil uchel a chlinigwyr eraill sy'n gweithio o fewn y Bwrdd Iechyd.

I gyd, roedd ein gweithgareddau Cyfryngau Cymdeithasol yn gwneud mwy na 5 miliwn o argraffiadau gyda mwy na 500,000 o adweithiau, sylwadau a rhannu.

Hefyd, roedden ni'n ffrydio cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd Iechyd i barhau i'w gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd.

Roedd nifer o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd (er enghraifft, Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl, Gwasanaethau'r Gymuned) yn parhau i gynnig apwyntiadau dros y ffôn neu alwadau fideo er bod nifer o driniaethau corfforol wedi'u gohirio oherwydd y risg o ledaenu COVID-19.

Wrth i'r Pandemig lacio yn ystod y cyfnod clo, dechreuodd y Bwrdd Iechyd ail ddechrau'r gwasanaethau oedd wedi'u hamharu neu eu hatal ar adeg waetha'r don gyntaf o'r Pandemig. Gellir gweld y wybodaeth ddiweddaraf am ail ddechrau ein gwasanaethau ar ein gwefan:



bipab.gig.cymru/ailgychwyn-gwasanaethau1/ailgychwyn-gwasanaethau/


2. Edrych i'r dyfodol - ein Rhaglen Dyfodol Clinigol

Beth yw Dyfodol Clinigol?

Mae ein Strategaeth Dyfodol Clinigol yn amlinellu sut rydyn ni'n symud tuag at gydbwysedd gwell o ofal, drwy:

- gyflenwi'r gofal mwyaf yn agos i gartrefi;
- greu rhwydwaith o Ysbytai Lleol sy'n darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaeth arferol; a
- chanoli Gwasanaethau Arbenigol a Gofal Critigol mewn lleoliad pwrpasol - Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Mae'r graffig isod yn crynhoi ein model ar gyfer dyfodol Gofal Iechyd:



2.1 Cynnydd yn 2019/20

Roedd y flwyddyn yn cynrychioli cyfnod cyffrous yn natblygiad y Rhaglen Dyfodol Clinigol gyda nifer o newidiadau a llawer o gynnydd.

Mae trawsnewid a newid yn heriol i unrhyw sefydliad ond mae sicrhau bod yr holl Wasanaethau Clinigol yn symud gyda'i gilydd yn allweddol. Mae'r adran ganlynol o'r Adroddiad Blynnyddol yn crynhoi'r cynnydd a wnaed:

Datblygu Ysbyty Athrofaol y Faenor - Roedd adeiladu Ysbyty Athrofaol y Faenor yn datblygu'n hynod o dda er waethaf tywydd gwael ar adegau. Mae Tîm Prosiect y Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio'n agos iawn gyda'r

partner cadwyn cyflenwi, Laing O'Rourke, a'r rheolwyr prosiect technegol allanol, Gleeds. Erbyn yn gynnar yn 2020, roedd grwpiau staff y Bwrdd Iechyd yn derbyn cipolwg ar rannau gorffenedig yr adeilad a chwblhawyd y Strategaeth Gelf fewnol.

Mae'r lluniau isod, a baratowyd gan y contractwyr Laing O'Rourke, yn dangos cynnydd yr Ysbyty newydd:



Parodrwydd y Gwasanaeth Clinigol - Mae sicrhau bod ein Gwasanaethau Clinigol yn barod ar gyfer newidiadau posibl pan fydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor yn hanfodol. Bydd y gwasanaethau aciwt fel Gofal Critigol, Cardioleg a Phaediateg (i enwi ychydig) yn cael eu canoli yn yr ysbyty newydd. Bydd rhai gwasanaethau eraill yn gweithredu ar draws nifer o safleoedd ein hysbytai gan gynnwys ein cwbl bwysig Ysbytai Cyffredinol Lleol ar eu newydd wedd (Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr). Yn y cyfamser, bydd gwasanaethau eraill yn cael eu cyflenwi yn y gymuned neu mewn cartrefi pobl. Er mwyn sicrhau bod y trawsnewid yn llwyddiant, bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Clinigol i sicrhau bod y cynllunio'n drwyadl ac yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llwybrau cleifion wedi'u mapio a'u deall yn glir ac yn gweithio ar draws y system i gyd ac nid yn unigol. Mae rhai o'r cyfleoedd mwyaf cyffrous wedi cyflwyno eu hunain wrth i ni weithio ar draws y system gan greu strwythurau, cyfleusterau a llwybrau integredig. Mae gweithdy ar raddfa fawr wedi helpu hyn i ddigwydd gan eu hategu drwy gynllunio'r gwasanaethau'n fanwl. Tanategwyd hyn gan gyfathrebu agored a phroses o ymgysylltu drwy'r Uwch Fforwm Arweinyddiaeth Glinigol.

Comisiynu Gweithredol - Nid yw agor safle Ysbyty, ynghyd ag ail ffurfweddu Ysbytai presennol a gwasanaethau'n dasg hawdd. Dyna pam bod 2019 a 2020 wedi gweld llawer o gyfraniad at sut dylai hyn gael ei wneud. Roedd y tîm yn ymgysylltu â thimau yn Northumbria ynghyd â Gogledd Bryste i ddarganfod sut oedden nhw'n comisiynu eu Hysbytai newydd a pha wersi pwysig a ddysgwyd. Fel allbwn o'r gwaith ar y cyd hwn, cytunwyd dros dro ar gynllun arfaethedig i amlinellu sut bydd gwasanaethau'n symud a rhan pob gwasanaeth unigol yn y cynllun hwnnw. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach ac yn y pen draw'n cael ei weithredu'n hwyrach yn 2020, wrth i ni gyflawni ein cynllun comisiynu cyn symud i Ysbyty Athrofaol y Faenor ac ail ffurfweddu'r Ysbytai Cyffredinol Lleol.

Cyfathrebu â staff - Os na fydd ein staff yn deall beth sy'n digwydd, yna gall straeon ddechrau a gallai'r rhain affeithio'n negyddol ar unrhyw drawsnewid. Yn ail hanner 2019, cynhaliwyd arddangosfeydd teithiol ar gyfer ymgysylltu â staff i barhau i siarad ag aelodau ein staff am y newidiadau sydd ar y gorwel a'r effaith posibl ar eu gwasanaethau. Cynhaliwyd

nifer o ffora a gweithdai i ymgysylltu gyda staff am lle byddai eu gwasanaethau wedi'u lleoli a pha

newidiadau

fyddai o'u blaen hwy.



Recriwtio Clinigol - Nid cyflenwi mwy o'r un peth ar draws safle arall fydd agor Ysbyty Prifysgol y Faenor ac ailwampio ein Hysbytai presennol ond yn hytrach newid cyfluniad ein gwasanaethau i ddarparu'r gofal mwyaf diogel a phriodol posibl. Felly, bydd y mwyafrif o staff Ysbyty Athrofaol y Faenor yn staff presennol fydd yn trosglwyddo o safleoedd eraill pan fydd yn agor. Er waethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn deall bod dulliau newydd o weithio'n gofyn am Staff Clinigol penodol. Yn 2019 a 2020, gwnaed nifer o benderfyniadau positif i recriwtio Staff Clinigol ychwanegol i helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd gynnig gofal diogel a mwy ymatebol ar draws ein holl Ysbytai fel bod deilliannau a phrofiadau cleifion yn gwellu.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd - Mae trafod gyda thrigolion Gwent a De Powys yn hynod bwysig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio sicrhau ei fod yn ymestyn allan at Gymunedau amrywiol o bob cefndir ac oed i roi gwybod i bobl beth sy'n digwydd a pha fuddion y bydd newidiadau mewn Gofal Iechyd y neu roi iddyn nhw. Roedd y Bwrdd Iechyd, drwy gydol 2019 ac yn gynnar yn 2020, yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ac ymweliadau Cyhoeddus â grwpiau sefydledig i drafod y newidiadau arfaethedig. Roedd nifer o staff y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn o'r Prif Weithredwr i aelodau Tîm y Rhaglen Dyfodol Clinigol. Roedd uchafbwyntiau arbennig yn cynnwys yr achlysur Hyrwyddwyr y Gymuned a gynhaliwyd yn Rodney Parade yng Nghasnewydd oedd yn denu llawn tŷ o aelodau'r cyhoedd o bob rhan o Went. Yn y sesiwn rhyngweithiol hwn gofynnwyd nifer o gwestiynau uniongyrchol I Uwch Aelodau'r Bwrdd Iechyd ac roedd adborth o'r digwyddiad yn hynod bositif. Yn y dyfodol, bydd ein gwaith Ymgysylltu'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn gwybod sut a ble byddan nhw'n gallu cael mynediad i'r gwasanaethau a sut gallan nhw gyrraedd yno (e.e. cludiant cyhoeddus).



Dyfodol Clinigol a'r Ymateb i COVID-19 - Tua diwedd 2019/20, fel y nodwyd ynghynt, teimlwyd effaith COVID-19 yn ardal y Bwrdd Iechyd. Wrth i'r Bwrdd Iechyd ail-gyflunio ei hun yn ddramatig i wynebu'r heriau, roedd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn cael ei drosglwyddo'n rhannol i'r Bwrdd Iechyd i gefnogi'r ymateb i'r Pandemig os byddai angen. Diolch am weithio agos rhwng nifer mawr o dimau o'r Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru a'n partner yn y gadwyn gyflenwi, Laing O'Rourke, dechreuodd Ysbyty Prifysgol y Faenor gael ei sefydlu fel 'cam i lawr' neu Safle Ysbyty Aciwt Isel diwedd mis Mawrth a dechrau mis Ebrill. Yn ffodus iawn, nid oedd Ysbyty Athrofaol y Faenor angen cael ei ddefnyddio ond, roedd y gwaith aruthrol a wnaed gan yr holl dimau yn destament i sut i ymateb yn bositif yn wyneb adfyd. Yn ychwanegol at hyn, roedd nifer o'r cynlluniau roedden ni wedi bod yn gweithio arnyn nhw ar gyfer Dyfodol Clinigol wedi'u defnyddio ynghynt nag y cynlluniwyd i gefnogi ymdrech COVID-19. Heb gynllunio ymlaen llaw, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl.

2.2 Dyfodol Clinigol – I Gloi

Bydd y diweddariad yn yr Adroddiad Blynnyddol hwn yr olaf cyn i Ysbyty Athrofaol y Faenor agor i'r cyhoedd. Bydd hyn yn gweld symudiad anferth yn ein dull o gyflenwi gwasanaethau ar draws Gwent a'r rhai sy'n cael eu

darparu ar gyfer De Powys a hefyd sut byddwn ni'n sefydlogi ac yn gwella nifer o Wasanaethau Arbenigol. Y gwaith called a wnaed gan yr holl dimau yn ystod y cyfnod hwn yw'r union reswm y mae gennym bob ffydd y bydd y trawsnewid yn y dyfodol yn llwyddiant. Nid yw ymgysylltu erioed wedi bod mor bwysig a bydd y nifer mawr o unigolion a grwpiau y cysylltwyd â nhw yn ystod 2019 ac ymlaen i 2020 yn talu ar ei ganfed gan sicrhau bod y model arfaethedig o Ofal Iechyd wedi'i ddeall gan y mwyafrif. Mae COVID-19 wedi newid ein natur a'n dull o gyflenwi Gofal Iechyd. Er waethaf hyn, datblygwyd uchelgais Dyfodol Clinigol i ateb yr heriau newydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u hwynebu, heb gyfaddawdu ansawdd na phrydlondeb dyfodol y gôl derfynol.

3. Llwyddiannau Staff

Dathlu Ein Staff

Cynhaliwyd y nawfed seremoni Gwobrwyo Cydnabyddiaeth y Staff ym mis Rhagfyr 2019 yng Nghanolfan Christchurch, Casnewydd. Ffrydiwyd y seremoni ar Facebook Live ac roedd mwy na 400 o aelodau'r staff yn mynychu'r digwyddiad oedd yn dathlu llwyddiannau staff ar draws y Bwrdd Iechyd oedd wedi cyflenwi gwasanaethau ac wedi dangos arweinyddiaeth o'r safon uchaf.



Yn ystod y flwyddyn hefyd, cydnabuwyd staff a gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn lleol ac yn genedlaethol gyda chyfres o wobrau gan gynnwys yr aelodau staff canlynol oedd yn derbyn anrhyddedau.

Anrhydeddau Pen Blwydd y Frenhines

Enwyd dau aelod o'n staff yn y Rhestr Anrhydeddau'r Pen Blwydd. Derbyniodd y Prif Weithredwr, Judith Paget, CBE a Gareth Hughes, Cyfarwyddwr Cyfleusterau Rhanbarthol y BEM.



Derbyniodd Judith Paget, y Prif Weithredwr ei CBE gan y Frenhines yng Nghastell Windsor a Gareth Hughes ei BEM gan yr Arglwydd Lefftenant mewn seremoni yn Neuadd Tatton yn Sir Gaer.



Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

Derbyniodd Sara Goode, Nyrs Arweiniol Cynllunio Brys y BEM (Medal yr Ymherodraeth Brydeinig) yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

Derbyniodd y BEM am 'Wasanaethau i Gynllunio Brys' am ei gwaith Lleol a Chenedlaethol.

Yn ystod 2019/20, roedd llawer mwy o aelodau'r staff yn ennill amrywiol wobrau am eu hymdrechion proffesiynol – gwelir manylion ar ein gwefan bipab.gig.cymru/

3.1 Dathlu ein Gwirfoddolwyr

Ym mis Hydref 2019, cynhaliwyd ein Te Prynawn blynyddol i Wirfoddolwyr i fynegi ein diolch i'n holl Wirfoddolwyr am eu cyfraniad anhygoel bob wythnos.

Roedd yn gyfle gwych i'n Gwirfoddolwyr gyfarfod ei gilydd ac i staff y Bwrdd Iechyd allu siarad â chynifer o bobl anhygoel sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau ein cleifion a'u teuluoedd.



4. Adroddiad Dadansoddiad Perfformiad Sut roedden ni'n perfformio yn 2019/20

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi syniad i chi sut roedden ni'n perfformio o safbwynt ein safonau a'n huchelgeisiau ein hunain ynghyd ag yn erbyn ystod o dargedau Cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

Y Cerdyn Sgorio Cytbwys- Trosolwg

Offeryn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cerdyn Sgorio Cytbwys sy'n rhoi Fframwaith i GIG Cymru i fonitro perfformiad. Mae'n dangos cyfres o ddangosyddion safonol er mwyn gwerthuso perfformiad sefydliad.

Mae'r **Cerdyn Sgorio Isod** yn dangos sut roedd ein Bwrdd Iechyd yn perfformio ym mhob categori yn ystod 2019/20. Gwelir mwy o wybodaeth am y meysydd hyn yn ein **Hadroddiad Perfformiad** llawn (dogfen ar wahân). Gellir gweld hon yn: bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Gwell perfformiad	Perfformiad cynaliadwy	Dirywiad mewn perfformiad	Crynodeb o berfformiad	Targedau a gyflawnwyd
AROS YN IACH – digon o wybodaeth a chymorth i reoli fy iechyd corff a meddwl	1 fesur	0 fesur	4 mesur		1 fesur
GOFAL DIOGEL – cael fy niogelu rhag niwed ac yn diogelu fy hun rhag niwed y gwn i amdano	8 mesur	0 fesur	7 mesur		2 fesur
GOFAL UNIGOL – Cael fy nhrin fel unigolyn â'm hanghenion a'm cyfrifoldebau fy hun	2 fesur	1 fesur	2 fesur		1 fesur
EIN STAFF & ADNODDAU – Gallu dod o hyd i wybodaeth am sut mae'r GIG yn agored ac yn dryloyw o ran y defnydd o adnoddau a gallaf eu defnyddio'n ofalus	1 fesur	0 fesur	4 mesur		
GOFAL PRYDLON – cael mynediad prydlon i wasanaethau ar sail angen clinigol ac yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am fy ngofal	9 mesur	1 fesur	14 mesur		6 mesur
GOFAL EFFEITHLON – derbyn y gofal a'r cymorth cywir mor lleol ag sy'n bosibl ac yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus	5 mesur	0 fesur	3 mesur		
GOFAL URDDASOL – cael fy nhrin â gofal urddasol a pharchus ac rydw i'n trin eraill yr un fath	1 fesur	0 fesur	1 fesur		
Sylwer: mae'r cerdyn sgorio hwn yn ymwneud â'r cyfnod o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2019. Crynodeb	27 mesur	2 fesur	35 mesur		10 mesur

5. Perfformiad Ariannol 2019/20

Mae'n braf gallu dweud bod y Bwrdd Iechyd unwaith eto wedi cyflenwi gwasanaethau o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd yn 2019/20.

Mae Deddf GIG (Cymru) 2014 yn mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn adennill costau dros gyfnod o dair blynedd, Mesurwyd hyn am y tro cyntaf yn 2016/17.

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r ddyletswydd statudol hon gyda gweddill bychan o £32k yn y flwyddyn bresennol gan esgor ar weddill dros 3 blynedd o £513k.

Mae'r tablau isod yn dangos perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn erbyn terfyn ei adnoddau refeniw a chyfalaf dros y tair blynedd ddiwethaf.

Terfyn Adnoddau Refeniw Blynnyddol Dyletswydd Adennill Perfformiad a Statudol Tair Blynedd	2017/18 £000	2018/19 £000	2019/20 £000
Tanwariant Terfyn Adnoddau Refeniw Blynnyddol	246	235	32
Perfformiad Refeniw Tair Blynedd Statudol	509	530	513

Terfyn Adnoddau Cyfalaf Blynnyddol Dyletswydd Adennill Perfformiad a Statudol Tair Blynedd	2017/18 £000	2018/19 £000	2019/20 £000
Tanwariant Terfyn Adnoddau Cyfalaf Blynnyddol	78	41	28
Perfformiad Cyfalaf Tair Blynedd Statudol	209	161	147

Mae dyletswydd statudol ar y Bwrdd Iechyd hefyd i fod â chynllun 3 blynedd wedi'i gymeradwyo. Mae wedi cyflawni hyn.

Bu cyflawni dyletswyddau ariannol statudol y Bwrdd Iechyd yn dasg heriol. Mae sicrhau rhaglen arbedion sylweddol ynghyd â rheolaeth ariannol gadarn o fewn y sefydliad wedi helpu i danategu cyflawniad y targedau.

Cyfrifon 2019/20

Mae cyfrifon llawn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'u harchwilio i'w gweld drwy'r ddolen isod:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>

6. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau

Yn 2019/20, rydym wedi atgyfnerthu ein gweithgareddau Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda'r cyhoedd rydyn ni'n eu gwasanaethu a'n partneriaid. Profodd hyn o fudd real yn ystod y Pandemig COVID-19 Pandemig ac rydym wedi parhau i ddatblygu ac arloesi yn ystod y cyfnod hwn. Disgrifir ein gweithgareddau Cyfathrebu ac Ymgysylltu isod.

6.1 Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu Digidol


Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i arwain y ffordd yn y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu Digidol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd y niferoedd o ddilynwyr ar ein Facebook, Twitter ac Instagram yn parhau i gynyddu gyda mwy a mwy o bobl yn cyfathrebu gyda ni drwy'r sianeli hyn. Ar ddechrau'r Pandemig COVID-19, cydnabu'r Bwrdd Iechyd bod angen i ni sefydlu ein hunain fel y ffynhonnell wybodaeth gywir yng Ngwent. Buom yn gweithio'n galed i gynyddu ein cynulleidfa Cyfryngau Cymdeithasol a chynyddodd y nifer o tua 600% mewn un mis yn unig.

Cynhaliwyd cyfres o ymgyrchoedd Cyfryngau Cymdeithasol proffil uchel drwy ein Tîm Cyfathrebu ond hefyd mewn partneriaeth gyda chyrff GIG eraill yng Nghymru a Phartneriaid Cymunedol ehangach e.e. Awdurdodau Lleol a chyrff y Trydydd Sector. Mae'r rhain wedi cynnwys ffocws arbennig eleni ar ein Rhaglen Dyfodol Clinigol, ymateb i'r Pandemig COVID-19, Recriwtio, dathlu ein staff a themâu Gofal Sylfaenol.



Mae ein dull
Cyfathrebu
'Digidol yn
Gyntaf' wedi
parhau i
ddatblygu'n
sylweddol dros y
flwyddyn
ddiwethaf. Mewn
blynyddoedd
blaenorol, mae'r
Bwrdd Iechyd
wedi cyflwyno
gwybodaeth yn

syml tra, erbyn hyn, rydyn ni'n ymgysylltu ac yn rhyngweithio'n actif gyda'n
cleifion, y cyhoedd a budd-ddeiliaid drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol. Gwneir
hyn mewn amser real drwy gwestiynau gan gleifion a'r cyhoedd am
wasanaethau, eu profiadau presennol o'n gwasanaethau ac ansawdd eu
gofal. Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi treulio llawer iawn o amser yn cydlynu ac
yn ymateb i gleifion a'r cyhoedd yn ddyddiol.



Agwedd o'n gwaith sydd wedi profi'n hynod lwyddiannus eleni yw ymestyn
ymhellach ein defnydd o graffigau, darnau fideo, storïau cleifion a staff a
sesiynau Cwestiwn ac Ateb byw i gefnogi ein dulliau mwy traddodiadol o
Gyfathrebu.

Llwyddodd y Tîm Cyfathrebu hefyd i gynorthwyo ymgyrch y Bwrdd Iechyd i
recriwtio staff newydd i swyddi hanfodol drwy Farchnata a Hysbysebu
Digidol. Mae'r dull hwn yn cynnig modd arall i'r Bwrdd Iechyd elwa na ellid
bod wedi'i gyflawni drwy ddulliau a Chyfryngau traddodiadol.

Cyfathrebu'r Cynllun Gaeaf

Ym mis Tachwedd 2019, lansiodd y Bwrdd Iechyd 'Rhoi CHI yn gyntaf y gaeaf hwn' - ymgyrch i gynnig gwybodaeth a chyngor am ein Gwasanaethau Iechyd yn ystod misoedd y Gaeaf. Cynhaliwyd yr ymgyrch hyd at fis Chwefror 2020.



Fel rhan o'r ymgyrch, roedden ni'n dangos sut roedd aelodau o'n staff yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod cleifion yn ddiogel ac yn derbyn gofal da yn ystod y gaeaf. Roedden ni'n dangos hefyd sut roedd ein cleifion ac aelodau o'r cyhoedd yng Ngwent yn gallu bod yn 'Arwyr y Gaeaf' drwy wneud y dewisiadau Iechyd cywir.

I wella ysbryd staff drwy fisoedd y gaeaf, roeddem yn annog staff ac aelodau'r cyhoedd i enwebu eu 'Harwyr Gaeaf' eu hunain (nail ai cydweithwyr, cleifion neu aelodau teulu). Cydnabuwyd yr arwyr hyn gyda chyflwyniadau o siocledi 'Heroes' a ffilmwyd hwy a'u rhannu ar y Cyfryngau Cymdeithasol.

Defnyddiwyd Cyfryngau Cymdeithasol yn eang i gyflwyno negeseuon ein Hymgyrch Gaeaf. Yn gyffredinol, roedden ni'n cynhyrchu tua 150 o graffigau a fideos Ymgyrch Gaeaf I'w rhannu ar draws Facebook, Twitter, Instagram a YouTube.

Gellir gweld deunyddiau'r ymgyrch ar ein Sianeli Cyfryngau Cymdeithasol drwy ddefnyddio'r hashnod **#ByddwchYnArwrYGaeaf**



Y PETHAU RYDYM WEDI'U RHOI AR WAITH AR GYFER Y GAEAF YNG NGWENT...

Rydym yn annog staff a chleifion i cael y pigiad fflui

Yr ydym wedi buddsoddi mewn staff ychwanegol i drin mwy o bobl

Rydym wedi cynyddu ein capasiti gwelyau ar adegau pan fo'r galw ar ei uchaf

Yr ydym yn gofalu am fwy o bobl yn eu cartrefi

Cyfleuster newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent i gyflwynu'r broses o drosglwyddo cleifion i'r Adran Brys o ambiwlansys

Mae gwirfoddolwyr y Groes Goch yn rhoi cymorth anfeddygol i gleifion

Yr ydym yn gofyn i chi ein cefnogi drwy ddewis y gwasanaeth cywir ar gyfer eich anghenion gofal iechyd

GIG NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Ymgyrch 'Fy Iechyd Lleol'

**Llinell Gymorth
Ffôn Galw Iechyd
Cymru**

Rydym yma i'ch helpu i
reoli eich iechyd a'ch lles.
Os ydych chi'n teimlo'n sâl
ac angen rhywfaint o
gyngor, ffoniwch ni ar
0845 46 47 neu ewch i
[nhsdirect.wales.nhs.uk](https://nhs.uk)

#FyIechydLleol



GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Amgueddfa Breuddorion University Health Board

Dyfodol Clinigol Clinical Futures

Fferylllydd

Gallaf roi cyngor arbenigol
a thriniaeth dros y
cownter i chi ar gyfer
ystod o anhwydlerau
cyffredin, gan gynnwys:

- Llwyn Test
- Poen Cofn
- Dolur Rhyds
- Breich yr Ieir
- Camdreulad
- Brech Cewyn
- Rhwymedd
- Clefyd y Gwair
- Llau Pen
- Dermatitis

#FyIechydLleol



GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Amgueddfa Breuddorion University Health Board

Dyfodol Clinigol Clinical Futures

Optegydd

Gallwn i helpu i drin eich
problemau llygad
cyffredin. Os oes gennych
chi olwg aneglur, golwg
dwbl neu llygaid poenus,
trefnwch apwyntiad nawr.

#FyIechydLleol



GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Amgueddfa Breuddorion University Health Board

Dyfodol Clinigol Clinical Futures

Datblygodd a hyrwyddodd y Bwrdd Iechyd Ymgyrch Gofal Sylfaenol- 'Fy Iechyd Lleol'- er mwyn codi ymwybyddiaeth o Wasanaethau Gofal Sylfaenol amgen a hyrwyddo opsiynau amgen i ymweld â'ch Meddyg Teulu yn ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Bu'r ymgyrch yn llwyddiannus iawn ac mae wedi cyflwyno rolau Mordwywr Gofal i'r cyhoedd yn ehangach drwy ddau fideo egluro. Mae'r fideos hyn yn annog y cyhoedd i ofyn am help a chynghor ynglŷn â'u cyflyrau gyda'r Cyfleuster Gofal Sylfaenol priodol i sicrhau'r penderfyniad mwyaf briodol.

Mae'r ymgyrch yn defnyddio'r hashnodau #DewisDoeth a #FyIechydLleol ac yn hyrwyddo ethos Dyfodol Clinigol cleifion, sef cael y gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg cywir.

6.2 Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Yn ystod 2019/20, rydym wedi parhau â'n gwaith i ymgysylltu â chymunedau ar draws Gwent. Hyd nes i'r Pandemig Covid-19 daro, roedden ni'n bresennol mewn Cymunedau ar draws Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen yn gwrando ar brofiadau, meddyliau a syniadau pobl am Wasanaethau Iechyd yn eu hardaloedd. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gefnogi eu Hymgyssylltu â'r Gymuned.



Ers ei sefydlu yn ystod Hydref 2015, mae'r Tîm Ymgysylltu bob amser wedi anelu at fod yn bresennol mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl (h.y. Archfarchnadoedd, Siopau Un Alwad a Chanolfannau Hamdden) i sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd agwedd agored at geisio a gwrando ar farn y bobl leol.

Er bod Dyfodol Clinigol wedi'i drafod yn helaeth drwy gyfleoedd ymgysylltu amrywiol, gwelwyd cyflymiad amlwg ers cyhoeddi Ysbyty Athrofaol y Faenor.

O fis Mawrth 2020, pan affeithiodd y Pandemig Covid-19 ar Went, roedd llawer o ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd yn troi at Lwyfannau Digidol. Roedd hyn yn ein galluogi i barhau i ymgysylltu gyda'r cyhoedd tra'n cydymffurfio gydag arweiniad Llywodraeth Cymru i gadw staff ac aelodau'r cyhoedd yn ddiogel. Drwy ein Hymgysylltu Ar-lein, llwyddwyd i barhau sgysiau a phrofi dealltwriaeth ein cymuned gan alluogi pobl i ofyn cwestiynau oedd yn berthnasol iddyn nhw a rhai eu teuluoedd.



Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cefnogi rhannu gwybodaeth ac wedi profi derbyniad newidiadau eraill gwasanaethau GIG yn yr ardal, fel modelau newydd a rhai ar y gorwel o fewn Gofal Sylfaenol, creu Hybiau Gofal Integredig ac Ysbyty Athrofaol y Faenor sydd ar fin agor.

6.3 Ymgysylltu â Staff

Yn 2019/20, roedden ni'n parhau i ddatblygu ein hymgysylltu â staff drwy nifer o ddulliau gan gynnwys:

- Bwletin newyddion wythnosol ar gyfer staff;
- Atgoffa Rheolwyr ar bob lefel i rannu newyddion a'r newyddion diweddaraf gyda'u staff;
- Fforwm Ar-lein i ofyn unrhyw gwestiwn i'n Prif Weithredwr;



- Mentrau Cyfryngau Cymdeithasol cynyddol i ddathlu a diolch i'n staff (e.e. Mis Nyrsys Rhyngwladol);
- Sesiynau galw heibio misol ar gyfer staff i gyfarfod y Prif Weithredwr mewn amrywiaeth o Adeiladau'r Bwrdd Iechyd;
- Menter lle gellir gwahodd Cyfarwyddwyr Gweithredol i weithio gyda nhw am ddiwrnod;
- Achlysuron briffio Uwch Arweinwyr;
- Digwyddiadau Rhaglen Dyfodol Clinigol ar gyfer staff ac ar gyfer 'Hyrwyddwyr Dyfodol Clinigol';
- Nifer o gynadleddau i staff rannu eu gwaith, cynyddu eu haddysg a dathlu llwyddiannau;
- Ymweliadau gan y Cadeirydd ac aelodau Annibynnol ar draws y Sefydliad;
- Digwyddiadau Cydnabod ein Staff a'n Gwirfoddolwyr; a
- Diweddariadau dyddiol a Thaflen Newyddion wythnosol yn ystod Pandemig Covid-19

Mae ein Timau Cyfathrebu a Gweithlu wedi ymrwymo i ddatblygu ymhellach ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd gyda staff yn arbennig o safbwynt y Rhaglen Dyfodol Clinigol, sy'n newid y modd y mae ein Gwasanaethau Iechyd yn cael eu darparu.



6.4 Ymgysylltu gyda Sefydliadau Partner

Gweithio gydag Awdurdodau Lleol: Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu trefniadau sefydledig gyda'r pum Awdurdod Iechyd yn ein hardal. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned lleol ar ystod o newidiadau a datblygiadau gwasanaeth. Mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn chwarae rolau actif mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn mynychu Trefniadau Craffu Awdurdodau Lleol a hefyd rydyn ni wedi sefydlu cyfres o Gyfarfodydd Ymgysylltu gyda'r Cyngor Llawn neu Bwyllgorau Craffu pob Awdurdod Lleol i ddarparu cyflwyniadau diweddaru ac i drafod yn agored unrhyw faterion allweddol neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Arweinyddion ein pum Awdurdod Lleol partner. Rydyn ni'n chwarae rôl allweddol gyda'n Partneriaid yn y Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol yn y cyfarfod G10, sy'n dwyn ynghyd Arweinwyr Trefniadau'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal Gwent i gefnogi cysylltu ein rhaglenni gwaith a blaenoriaethau partneriaid.

Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio fel partner allweddol i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Sefydlwyd, mewn partneriaeth, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Grŵp Arwain gyda chefnogaeth ystod o raglenni fel Partneriaethau Strategol, Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. Rydym hefyd yn aelodau actif o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal Gwent fel rhan o'n cyfrifoldebau i weithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - gweler mwy o wybodaeth isod.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu, fel rhan o'r trefniadau ar gyfer ei gweithredu, Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae pob un o'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent wedi canfod, cytuno a mabwysiadu cyfres o Amcanion Llesiant ac wedi datblygu cynllun Llesiant mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae Aelod Annibynnol ac Aelod Gweithredol o'r Bwrdd yn eistedd ar bob un o'r PSBs yn ein hardal. Ffocws cynlluniau Llesiant y PSB yw cyflawni dyletswydd i wella Llesiant Economaidd, Amgylcheddol, Cymdeithasol a Diwylliannol ar draws pob un o'r pum ardal PSB. Mae'r rhain yn cysylltu i mewn i 'Strategaeth Creu Gwent Iachach' y Bwrdd Iechyd a gellir gweld mwy o wybodaeth am ymrwymiad ein Bwrdd Iechyd i'r Ddeddf yn Adran 15 o'r adroddiad hwn.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a Gwaith y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio'n actif gyda phartneriaid Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r dull cydweithredol hwn i gyflawni blaenoriaethau Iechyd a Gofal ar draws Gwent hefyd yn floc adeiladu allweddol i'n gwaith mewn partneriaeth. Er mwyn darparu arweiniad i weithredu'r Ddeddf, sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent ynghyd â Grŵp Arwain sy'n cydlynu gweithredu gweithredol y Ddeddf ac yn sicrhau pwyslais allweddol ar Iechyd a Llesiant pobl leol drwy ddulliau a gwasanaethau integredig. Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu Llwybrau

Gofal Integredig ar gyfer Oedolion Hŷn yn arbennig y rhai ag Anghenion Cymhleth. Mae wedi ail-lunio gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, yn arbennig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Gwelwyd ffocws ar ddatblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer pobl sy'n byw gyda Dementia a ffocws ar Ofalwyr fel blaenoriaeth, yn arbennig y gwasanaethau y maen nhw'n eu cael gan Feddygon Teulu, Fferyllwyr a datblygiadau newydd fel Rhagnodwyr Cymdeithasol. Mae'r Bartneriaeth Ranbarthol wedi gweithio ar ddulliau cydweithiol at Dai ac mae hefyd wedi ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu Modelau Gweithlu Integredig.

Gweithio gydag Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol (ASau):

Blaenoriaeth gan y Bwrdd Iechyd oedd gweithio'n rhagweithiol gydag Aelodau'r Senedd ac ASau i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn ymwybodol o ddulliau a datblygiadau allweddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau briffio Aelodau Senedd ac ASau yn rheolaidd sy'n sicrhau diweddariad brys ar feysydd diddordeb a datblygiad o raglen waith y Bwrdd Iechyd. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Senedd ac yn 2019/20, roedd y Bwrdd Iechyd yn ymateb i **335** o ymholiadau ysgrifenedig oddi wrth Aelodau Senedd ac ASau. Rydym hefyd wedi paratoi briffio ffôn wythnosol gydag Aelodau Senedd ac ASau yn ystod cyfnod y Pandemig COVID-19.

Gweithio gyda Heddlu Gwent a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC):

Roedd y Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio'n positif gyda'r Heddlu a'r Comisiynydd Trosedd a Heddlu Gwent i ddiogelu a sicrhau'r cyhoedd.

Gweithio gyda'r Trydydd

Sector: Mae trefniadau hir sefydledig gyda'r Trydydd

Sector yn bodoli yn ein hardal, yn arbennig drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen. Mae'r grwpiau hyn yn chwarae rhan werthfawr i gefnogi ein hagenda ymgysylltu a chwarae rôl actif yng Ngrŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflenwi ystod o brosiectau mewn partneriaeth gyda'r Trydydd Sector a Gwirfoddolwyr.



Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- Gwasanaeth Ymglyfeillio Red Robins Age Cymru Gwent yn Ysbytai Gwynllyw ac Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd.
- Mae'r Groes Goch wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Frys yn Ysbyty Brenhinol Gwent i helpu i wella profiad cleifion.
- C.H.A.a.T. (Gofyn a Siarad Cartrefi Gofal) - Aelodau o Gymdeithas Ymddeoliad GIG Gwent yw'r gwirfoddolwyr. Fel cyn gyflogai GIG, maen nhw'n angerddol tuag at wella gofal i bobl sy'n byw mewn Cartrefi Nyrsio, Yn ystod 2016, roedd gwirfoddolwyr Chat yn siarad â dros 1,600 o drigolion a 350 o berthnasau. Ym mis Ebrill, cynhelir Achlysur Ymgysylltu gyda phobl hŷn, perthnasau a Chartrefi Gofal o dan y teitl Gwranddo ar Adborth i ystyried gweithgareddau mwy ystyrlon.
- Peilot o C.H.A.a.T. Ysbyty - Bydd Gwirfoddolwyr Chat yn cefnogi peilot mewn Wardiau Ysbytai i gefnogi pobl hŷn a'u perthnasau wrth eu trosglwyddo. Cytunwyd ar systemau atgyfeirio, Taflenni Gwybodaeth i Gleifion ac adborth i Brosesau Ward. Mewn partneriaeth gyda Chyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, mae menter lle mae Gwirfoddolwyr Chat yn siarad â phobl hŷn gyda phroblemau Iechyd Meddwl mewn Wardiau am eu profiadau gofal. Mae trafodaethau pellach yn cael eu cynnal am Wirfoddolwyr yn siarad â chleifion sy'n byw gyda Dementia a'u perthnasau.
- Ffrind i Mi - cais cydweithredol llwyddiannus i dudalen 'syniadau' Her Technoleg Iechyd Cymru i ddatblygu Gwasanaethau Ymglyfeillio ar gyfer y rhai sy'n ynysu'n gymdeithasol neu'n unig. Mae hwn yn bartneriaeth sy'n cynnwys y Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol, Mudiadau Gwirfoddol, Coleg Gwent, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithasau Tai, Age Cymru, SSAFA a Fforwm y Cyn-Filwyr. Yn barod, mae hwn wedi gweld Mudiad Cymdeithasol cyfunol sydd wedi'i anelu at ddatblygu Cymunedau trugarog. Mae Gwirfoddolwyr hefyd yn ymglyfeillio, helpu a chefnogi cleifion yn ein rhwydwaith o Ysbytai.
- Gweithwyr Cefnogi Dementia - mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Alzheimer, penodwyd chwe Gweithiwr Cefnogi Dementia (DSWs) i weithio ar draws ardaloedd NCN. Wrth weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Asesu Cof, bydd y DSWs yn cefnogi pobl o adeg y diagnosis. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect aml-asiantaeth a chytunwyd ar gynllun gweithredu drwy'r Bwrdd Dementia.

- Canolfan Blant Serennu a Sparkle – mae ystod eang o rolau Gwirfoddolwyr yng Nghanolfan Blant Serennu, High Cross, Casnewydd.
- Cymuned Gerddi Muriog Llanfrechfa, Cwmbrân, fel rhan o raglen Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Gweithio gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned:

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Chyngor Iechyd Cymuned (CIC) Aneurin Bevan, Sefydliad Statudol annibynnol sy'n gweithredu fel llais i gleifion a chorff gwarchod i bob agwedd o Ofal a Gwasanaethau.

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan wedi parhau i gynnig her adeiladol pan fydd hynny'n briodol ac mae wedi darparu cymorth rhagorol i faterion Newid Gwasanaethau allweddol drwy gydol 2019/20. Yn rheolaidd, byddwn ni'n cymryd cyngor Cyngor Iechyd Cymuned o safbwynt Ymgysylltu gyda Chleifion a'r Cyhoedd yn briodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Swyddogion Gweithredol a Chyngor Llawn y Cyngor Iechyd Cymuned ac mae hefyd yn cymryd rhan mewn trefniant Cydgyngor Cymuned. Hefyd, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Chyngor Iechyd Cymuned Powys i sicrhau bod cleifion sy'n byw yn Ne Powys sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn cael eu lleisiau wedi'u clywed. Hefyd, mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn darparu adroddiad i bob un o Gyfarfodydd Cyhoeddus y Bwrdd.



I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â:

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Tŷ Raglan, 6-8 Clos William Brown, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB
Ffôn: 01633 838516 (mae peiriant ateb 24-awr ar gael)

E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

7. Yr Iaith Gymraeg

Safonau'r Iaith Gymraeg

Rydyn ni'n parhau i gynnal ein hymrwymiad i ddarparu a datblygu ein gwasanaethau Iaith Gymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg yn byw ym mhob ardal o'r gymuned rydyn ni'n eu gwasanaethu a chydabyddwn bwysigrwydd cyflawni anghenion yr Iaith Gymraeg i sicrhau profiad a deilliannau positif i'r claf.



Mae gan y Bwrdd Iechyd [dudalen safonau Iaith Gymraeg benodedig](#) ar y Wefan Gorfforaethol.



Cymraeg
Welsh

Canolfan Cymraeg
Ynys Môn

POBL YN GYNTAF

DELIO Â CHLEIFION

Gan gynnwys:

- Staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn ac/neu gortyn gwddf' laith Owthaith
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo gwisg wedi'u brodio â'r logo laith Owthaith
- Gofyn i gleifion os hoffon nhw gyfarthrebu â chi trwy gyfrwng y Gymraeg



Hysbysu

YDYCH CHI'N CYDYMFURFIO?

GALLWCH DDOD O HYD I'R HOLL ADNODDAU SYDD EU HANGEN ARNOCH YR Y FEWNRIWY

Rydyn ni'n falch o allu chwarae rhan yn Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru - *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg* ac annog ein staff i gymryd perchnogaeth o'r her hon. Rydyn ni'n falch o adrodd am y cynnydd yn y nifer o staff sy'n cofrestru ar gysiau Iaith Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad.



Ym mis Mehefin 2019, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Cymraeg ar gyfer Facebook, Twitter, Instagram a YouTube. Ers eu sefydlu, mae ein cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Cymraeg yn araf wedi ennill nifer cynyddol o ddilynwyr. Er na ellir cymharu'r nifer o gymharu gyda'u ffrindiau cyfatebol Saesneg eu hiaith, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod eu bod yn y



cyfnod cynnar ac mae'n gyffrous i weld cynnydd mewn dilynwyr wrth i ni barhau i ymgysylltu gyda'n Cymuned Cymraeg eu hiaith.

Ers mis Mehefin 2019, defnyddiwyd ein cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol i hyrwyddo ymgyrchoedd Dwyieithog ar draws ein holl Sianeli Cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Er enghraifft, roedden ni'n cefnogi Diwrnod Hawliau Iaith Gymraeg yn ddwyieithog ar 12 Rhagfyr.



Wrth baratoi ar gyfer 'Diwrnod Shwmae' ar 15 Hydref 2019, roedden ni'n creu ymgyrch wythnos o hyd i gynnwys ein haelodau staff gyda thema Cwpan Rygbi'r Byd 2019. Roedd yr ymgyrch yn ddull llwyddiannus o ymgysylltu'n bositif gydag aelodau'r staff ar bob safle'r Bwrdd Iechyd ac yn caniatáu i staff gofleidio'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.



I ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen, manteisiwyd ar y cyfle i gael adborth ein staff ar y cyrsiau Blasu'r Gymraeg. Defnyddiwyd ein llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol hefyd i hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru ym mis Chwefror gan ganolbwyntio'n benodol ar y cysur yr oedd cerddoriaeth Gymraeg yn ei roi cleifion Dementia, yn unol â'r Ymgyrch Cenedlaethol.



Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg /Dysgwyr



Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2019, roedd y Bwrdd Iechyd yn falch i lansio rhwydwaith iaith Gymraeg newydd **PartnerIAITH**, gyda Heddlu Gwent. Nod y cynllun yw cysylltu staff o'r ddau sefydliad, gan greu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg o bob gallu i ymarfer eu sgiliau iaith a chynyddu hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.

Dyfodol y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd

Mae'r cynnydd dros gyfnod yr adroddiad yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gyflenwi gwasanaeth sy'n cyflawni anghenion ein cymunedau Cymraeg eu hiaith a'n Gweithlu ein hunain. Mae ystyriaethau Cymraeg eu hiaith yn rhan annatod o'n cynllunio gwasanaeth a'r Cynllun Canolig Integredig a'n nod yw parhau i dyfu fel gweithle dwyieithog sy'n gwerthfawrogi sgiliau iaith Gymraeg ac yn denu ac yn croesawu staff Cymraeg eu hiaith newydd.

8. Gweithio i Wella

Yn unol ag 'Egwyddorion ar gyfer Gwella', mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli cwynion o fewn rheoliadau o'r enw 'Gweithio i Wella'.

Egwyddor sylfaenol Gweithio i Wella yw os bydd rhywun yn mynegi pryder am driniaeth a gofal, naill ai drwy gŵyn, hawliad neu Ddigwyddiad Clinigol, gall y rhai sy'n rhan o hyn ddisgwyl eu bod yn cael eu trin yn agored ac yn onest,

yn derbyn ymchwiliad trwyadl a phriodol, cydnabyddiaeth brydlon ac ymateb i sut y bydd y mater yn cael ei drin.

Pan fydd anghyfiawnder neu galedi wedi digwydd, nod y Bwrdd Iechyd, pan fydd hynny'n bosibl, yw dychwelyd yr achwynwyr i'r man lle bydden nhw wedi bod os na fyddai'r gwasanaeth gwael neu'r camweinyddu wedi digwydd. Hefyd, mae uwch aelodau'r staff yn cynnig cyfarfod ag achwynwyr i ddarparu eglurhad, ymddiheuriad a chmau adferol pan fydd hynny'n bosibl.

Mae'n bwysig datrys cwyn cynted ag sy'n bosibl ac eleni, rydym wedi gweithio'n galed i ddatrys mwy na **1,900** cwyn- llwyddwyd i ddatrys **56%** o'r rhain yn anffurfiol a **43%** yn ffurfiol. Y nod yw datrys pob cwyn o fewn 30 diwrnod gwaith a chwynion anffurfiol o fewn 48 awr.

Yn dilyn adborth neu gŵyn, mae'n hanfodol bod llais yr achwynwyr yn cael ei glywed ac efallai, yn fwy pwysig, bod camau'n cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth i atal mwy o gwynion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn annog diwylliant o ddysgu lle nad yw gwelliant yn dasg ychwanegol ond yn rhan o waith bob dydd.

Mae mwy o wybodaeth am Gweithio i Wella ar gael yn ein **Datganiad Ansawdd Blynyddol** (Gwybodaeth bellach ar Gweithio i Wella ar gael yn ein **Datganiad Ansawdd Blynyddol** (Dogfen ar wahân) ar gael yma: bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/



8.1 Diolch i Chi am Ddarparu Gofal Gwych

Mae'n bwysig nodi bod ein staff ar draws ardal y Bwrdd Iechyd yn derbyn cannoedd o negeseuon o werthfawrogiad bob blwyddyn.

Gwelir rhai o'r rhain ar safle mewnwyd ein staff sydd â Wal Diolch benodol i aelodau'r cyhoedd rannu profiadau, teyrngedau a diolch gyda'n staff.

Dyma rai enghreifftiau o negeseuon a dderbyniwyd yn 2019/20:

Ar ran fy wraig a minnau, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i holl aelodau'r staff gan gynnwys nyrsys, meddygon, staff arlwyo a glanhau o D&A a MAU. Mae'r gwasanaeth, lletygarwch, tosturi, empathi a gofal a dderbyniwyd gennym yn ystod ein hamser wedi bod yn ddilychwin.

Dylech fod yn falch o'r hyn rydych chi'n ei wneud gan nad yw'n hawdd. Mae eich staff yn gredyd i'ch tîm gan eu bod yn gwneud mwy na sydd angen i sicrhau bod pethau'n digwydd. Mae'r staff yn poeni am eich iechyd a'ch llesiant ac yn sicrhau bod y gofal angenrheidiol yn cael ei ddarparu'n amserol. Roedd yn anffodus ein bod ein dau i mewn yr un pryd, fodd bynnag, byddwn bob amser yn ddiolchgar am yr hyn roedd eich timau yn y ddwy adran uchod wedi'i wneud drosom ni. Mae'n siwr bod llawer o hyfforddiant, datblygu a meithrin yn cael eu cynnig o sicrhau'r gorau yn eich timau ac mae'n amlwg yn y gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu.

Diolch i chi am roi o'ch gorau i ni gan ei fod wedi caniatáu i ni orffwys a gwella.

Mr and Mrs Iyer - Chwefror 2020

Wedi mynychu Ysbyty Nevill Hall yn ddiweddar i gael triniaeth, hoffwn fynegi fy niolch didwyll i'r staff y deuthum i gysylltiad â nhw y diwrnod hwnnw. Roedd pawb o'r derbynydd oedd yn fy nerbyn hyd at yr Ymgynghorydd, yn ei wneud 'bron' yn brofiad plerus! Roeddwn wedi ymlacio ac roedd teimlo bod pobl yn poeni amdanoch yn gwneud gwahaniaeth. Yn rhy aml, rydym yn clywed am agweddau negyddol y GIG lle, mewn gwirionedd, roeddwn i'n teimlo mor bwysig.

Byddwn yn gwerthfawrogi petai'r staff yn cael clywed yr uchod i sicrhau eu bod yn gwybod faint oeddwn yn eu gwerthfawrogi. Diolch i bawb

Lynda Carol Hay – Chwefror 2020

Hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn wrth yr holl staff gwych oedd yn helpu i eni fy merch yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Ar ôl genedigaeth hir ac eithaf trawmatig oedd yn arwain at doriad Caesaraidd, ni allaf ddiolch digon i'r staff oedd yn fy nghynorthwyo – fi, fy ngwr gofidus iawn a mam ac yn fwy pwysig sicrhau bod fy merch fach yn cael ei geni'n ddiogel. Roedd yn amser pryderus a gofidus i fi a'm teulu ond roedd y staff anhygoel mor gefnogol drwy'r geni o'r dechrau i'r diwedd. Roedd y bydwagedd, yr ymgynghorwyr a'r anaesthetwyr i gyd yn rhagorol ac yn sicrhau fy mod yn teimlo'n ddiogel drwy'r amser.

Ni allaf ddiolch digon iddyn nhw! Diolch anferthol unwaith eto. Mae eich staff yn sicr yn arwyr gwych!

Kaileigh Chorley - Rhagfyr 2019

Hoffwn ddweud 'diolch' wrth yr holl staff anhygoel yn Ward Rhymni. Hefyd, diolch yn fawr iawn i'r tîm llawfeddygol oedd yn cynnal fy llawdriniaeth.

Unwaith eto, diolch, diolch yn fawr iawn i'r holl staff anhygoel oedd yn gwneud fy arhosiad dros nos yn anhygoel.

Hugh Wilson - Gorffennaf 2019

Ar ôl disgyn ar fy llwybr ar ôl bod yn rhedeg, roedd fy ngwraig yn cynnal CPR gyda help fy llysfab a chymydog.

Pan gyrhaeddodd ambiwlans ac ymatebwyr cyntaf roedden nhw hefyd yn gweithio'n galed i'm sefydlogi cyn mynd â fi i Ysbyty Brenhinol Gwent. Oddi yno, roedd yr holl staff yn yr Ysbyty yn gweithio'n ddiflino i geisio fy ngwella – o adrannau D&A, ICU, HDU a Gofal Cardiaidd i'r gofal nyrsio – mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Mae fy nheulu wedi llenwi'r bylchau o amseroedd oedd ar goll i fi tra roeddwn yn derbyn gofal ac mae'n dal i'm synnu at bob peth a wnaed i'm gwella. Erbyn hym rydw i'n gwella ac yn mynd yn ôl at fywyd normal.

Mike Lyons – Mai 2019

9. Ymchwil, Gwelliant, Arloesi a Gofal Iechyd ar Sail Werth

Cefnogi'r Bwrdd Iechyd i feddwl a gweithio'n wahanol

Gall dulliau traddodiadol gwella ansawdd a diogelwch cleifion fel Archwiliad Clinigol, ganfod y materion neu'r gwasanaethau sydd angen gwella a gall ddarparu sicrwydd o'r gwelliant hwnnw. Fodd bynnag, lle mae angen newid y modd y mae ein Sefydliad yn gweithio a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cyflenwi, gallwn feddwl a gweithio'n wahanol drwy ymagwedd cydgysylltiedig tuag at Ymchwil, Gwelliant, Arloesi a Gofal Iechyd ar sail Werth.

- **Ymchwil a Datblygiad (R&D)** – 'Cynhyrchu tystiolaeth a syniadau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd'. Drwy ymchwil masnachol/ anfasnachol ar gyfer meysydd Clinigol a Gwyddonol ar draws y Bwrdd Iechyd
- **Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan (ABCi)** – 'Gwneud pethau'n well'. Gwella Ansawdd, hyfforddiant a modelu mathemategol
- **Arloesi** – 'Gwneud pethau newydd a gwahanol'. Datblygu ein diwylliant trefniannol drwy lwyfannau arloesi, partneriaethau gydag academia a diwydiant, creu syniadau ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau newydd, eiddo deallus, ffynonellau refeniw newydd ac adnoddau newydd o Raglenni Arloesi Cenedlaethol/ ffynonellau ariannu
- **Gofal Iechyd ar Sail Werth** - Mesur yr hyn sy'n bwysig ac asesu gwir werth gweithgareddau gofal iechyd, deilliannau, profiad a gwerth am arian i gleifion

9.1 Ymchwil a Datblygiad (R&D) o fewn y Sefydliad

Eleni, mae gwaith ymchwil o fewn y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ffynnu gyda 107 o astudiaethau'n dal i recriwtio aelodau a 1,857 o gyfranogwyr wedi'u recriwtio.

Mae pob isadran o'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan actif mewn gwaith ymchwil ac mae nifer o Gyfarwyddiaethau lle mae gwaith ymchwil wedi bod yn rhan annatod am nifer o flynyddoedd a lle mae'r cyfle i gyfranogi mewn Treial Clinigol yn cael ei ystyried fel rhan o Ofal Clinigol arferol. Mae Cardioleg, Rhewmatoleg, Bydwreigiaeth, Gofal Dwys a Gwasanaethau

Canser yn rhai o'r rhain. Bu'n ddymunol gweld nifer cynyddol o Gyfarwyddiaethau'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil bob blwyddyn ac, eleni, mae Therapiau, Strôc, Newroleg, Llawfeddygaeth a Dermatoleg i gyd wedi bod yn gweithio tuag at ddarparu seilwaith Ymchwil cadarn.

Wrth i'r Bwrdd Iechyd symud tuag at agoriad arfaethedig Ysbyty Athrofaol y Faenor, mae R&D yn cydweithio gyda Chyfarwyddiaethau Actif Ymchwil i sicrhau ein bod yn barod i gynnig Treialon Clinigol sydd wedi'u halinio i'r dulliau newydd o weithio. Ar gyfer hyn, roedd ein 10^{fed} cynhadledd flynyddol 'Sut Gall Gwaith Ymchwil Gyflawni Dyfodol Clinigol' yn dwyn at ei gilydd nifer o siaradwyr oedd yn gallu dangos sut mae



ffocws gwaith ymchwil wedi bod yn symud yn gyson tuag at ddarganfod dulliau newydd ac arloesol i gyflenwi gofal yn y cartref ynghyd â gwaith ymchwil yn y cartref.

Yn dilyn y thema Dyfodol Clinigol, roedd Dementia, Iechyd Meddwl, Therapiau, Strôc a Gofal Sylfaenol yn parhau i fod yn flaenoriaethau'r llynedd. Mae pob un o'r rhain yn anelu at gadw pobl yn iachach am fwy o amser yn eu cartrefi neu i ail sefydlu'r rhai sydd wedi dioddef salwch, i'w galluogi i wella'n Gorfforol ac yn Feddyliol.

Tua diwedd y flwyddyn, ni allai unrhyw un fod wedi rhagweld y byddai'n rhaid i'r gwaith ymchwil ar y gweill newid dros nos wrth i COVID-19 gyrraedd. Yn R&D, y neges oedd gohirio treialon pan oedd yn ddiogel gwneud hynny; i gael hyd i ddulliau newydd i gynnal treialon Clinigol oedd yn rhaid parhau'n agored ac agor treialon newydd a fyddai'n ceisio cael hyd i driniaethau, iachâd neu frechlynnau ar gyfer COVID-19. Roedd y Timau R&D a Chyflawni Gwaith Ymchwil yn gweithio'n ddiflino ac yn wynebu'r her. Ein Bwrdd Iechyd oedd y cyntaf yng Nghymru i dderbyn cleifion â COVID-19 ac, o fewn dyddiau, roedden ni'n gallu cynnig y treialon Clinigol cyntaf i'r cleifion hynny.



Ni fu gweithio mewn partneriaeth mewn Gwaith Ymchwil erioed mor bwysig gyda Gwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Partneriaid Prifysgol, Iechyd

Cyhoeddus Cymru ac Adrannau R&D ar draws Cymru'n uno i symud yn gyflym ac yn ddi-dor tuag at un gôl. Bydd hyn yn mynd â ni'n gryfach i mewn i'r flwyddyn nesaf ac yn well i sicrhau gwaith ymchwil yn ein Bwrdd Iechyd ac ar draws Cymru. Deallwn, ac rydym yn ei ystyried o ddifrif, bwysigrwydd gwaith ymchwil ar gyfer gwneud diagnosis cynnar ac atal salwch. Rydyn ni hefyd yn gwerthfawrogi'r angen am ddarparu gwerth am arian wrth gyflenwi gwasanaethau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol integredig sy'n gweithio'n agos gyda'i Lywodraeth Leol a'r Trydydd Sector a'r un Annibynnol.

9.2 Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan (ABCi)

Mae ABCi yn bodoli i alluogi, meithrin ac ysbrydoli rhwydwaith o bobl i arloesi a gwella. Mae ABCi yn cyflawni hyn drwy:

- **Medr** - creu sgiliau gwella ac arwain ar draws y Bwrdd Iechyd i alluogi staff i wneud newidiadau ystyrlon.
- **Arloesi** - dylunio a phrofi dulliau i ddelio â rhai o'r heriau mawr rydyn ni'n eu hwynebu o fewn gofal iechyd.
- **Cyflenwi** - cynnal rhaglenni gwella ar raddfa fawr a gweithio gyda staff i wella gwasanaethau i gleifion.



Creu medr

Mae ABCi wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ar draws y Bwrdd Iechyd drwy ystod o raglenni hyfforddi a dulliau eraill e.e.

- Roedd 32 o staff o fewn y Bwrdd Iechyd ac asiantaethau partneriaeth yn cwblhau'r pedwerydd criw o **Arwain Pobl** a gyflwynwyd mewn partneriaeth gyda Datblygu Sefydliadol. Mae gwerthusiad yn awgrymu bod y cwrs wedi cael cryn effaith ac o werth mawr.



- Roedd cefnogaeth gan y Rhaglen Dadansoddeg Gymhwysol Uwch y Sefydliad Iechyd yn ein galluogi i werthuso lefel yr effaith roedd yr **Academi Dadansoddeg a Modelu (AMA)** yn ei gael wrth gyflwyno

technegau Ymchwil Gweithredol (OR) i staff o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiad pellach AMA i sicrhau bod y rhai sy'n cyfranogi'n cynyddu eu dysgu a'u sgiliau wrth ddefnyddio OR i gefnogi gwneud penderfyniadau, gwella deilliannau a lleihau costau.

- Mae ABCi sydd wedi bod yn arwain yn genedlaethol ac yn lleol, yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Sefydliad Iechyd i ddeall a datblygu sut i gymhwyso'r wyddoniaeth **Seicoleg ar gyfer Gwelliant** sy'n dod i'r amlwg yn ymarferol. Nod y gwaith hwn yw datblygu 'y rhai sy'n gwella' a all gymhwyso egwyddorion seicolegol wrth weithio gydag eraill er mwyn 'gwella gwelliant'.
- Mae ABCi wedi datblygu a chyflwyno cwrs **QI Poded** undydd newydd i ddysgu egwyddorion craidd gwella ansawdd (QI). Cynhelir bob mis ac mae ar gael i'r holl staff. Mae'r rhain wedi profi'n hynod boblogaidd.

Gyrru arloesi

Cynhaliwyd **Diwrnod Arloesi** cyntaf ABCi ym mis Mai 2019. Ar ôl tri digwyddiad mewnol, ym mis Chwefror 2020, roedden ni'n agor allan i gynulleidfa fwy yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd lle ymunwyd â ni ymhlith eraill, tîm ATIC Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant. Roedd eu gallu i ddadansoddi drwy lwybr llygad yn caniatáu i ni gynnal arbrofion byw i ymchwilio i sut mae pobl yn edrych ar siartiau a data. Mae cynnyrch y dadansoddiad hwn yn dangos i ni sut rydyn ni'n cyflwyno data i dimau i'w helpu gyda'u cyflwyniadau gwybodaeth i gleifion a sut rydyn ni'n helpu cleifion ymhellach i ymgysylltu gyda'n gwasanaethau ac i ddeall y gofal a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn.

Cyflenwi newid cynaliadwy

Daeth y **Rhaglen Gydweithredol Briw Pwyso** i ben ym mis Medi 2019 gyda digwyddiad dysgu a dathlu terfynol yn cyd-amseru gyda'r timau oedd yn rhan o'r gwaith, yn ennill Gwobr Diogelwch Cleifion GIG 2019. Yn ychwanegol at y gwelliannau ansawdd a gafwyd drwy'r gwaith hwn, mae'r rhai sy'n rhan o hyn yn helpu i gynnwys mwy o gymhwyso arferol ymagwedd Gwella Ansawdd o fewn eu hardaloedd eu hunain ac yn cefnogi lledaenu i dimau eraill - cam nesaf y broses hon. Mae **ABCi Pwll Aros**, a ddechreuodd yn 2019-20, hefyd yn ddull pwysig newydd i ddarparu cymorth a chynghor hyfforddiant QI i dimau sy'n rhan o'r gwaith hwn.

Ennill Gwobr

Roeddem wrth ein bodd yn gweld gwaith y Rhaglen Gydweithio Briw Pwyso'n cael ei gydnabod gan wobwr Gwelliant Parhaus y Gymuned Cymru gyfan yn y categori "Gwneud Pethau Gwell". Gallwch ddilyn ABCi ar Twitter yn @ABCiAB

9.3. Arloesi

Rydyn ni'n datblygu ymagwedd sefydliadol tuag at arloesi fydd yn ein galluogi i wireddu nifer o gyfleoedd mewnol ac allanol i weithio mewn dulliau newydd a gwahanol.



Mae dau faes amlwg i'r gwaith hwn:

Arloesi COVID-19: Drwy ddefnyddio'r gwersi o'r Pandemig COVID-19 i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno dulliau newydd o weithio ac arloesi. Mae hyn wedi cynnwys arwain yr astudiaeth Arloesi COVID-19 GIG Cymru gyfan sy'n cefnogi newid sefydliadol ac yn creu astudiaeth achos ar ddulliau llwyddiannus o weithio i'w mabwysiadu'n ehangach. Hefyd, rydyn ni wedi cynnal gweithdai arloesi ar draws y Bwrdd Iechyd i gefnogi ein staff i feddwl a gweithio'n wahanol yn dilyn y pandemig COVID-19, ar sail y dystiolaeth o'r astudiaeth Arloesi.

Arloesi - AB: Datblygu system sy'n galluogi, cefnogi ac yn rheoli arloesi ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae hyn i greu'r amgylchedd mwyaf ffafriol ar gyfer arloesi. Rydyn ni'n creu dulliau i gynnal y syniadau newydd a gwahanol ar gyfer cynnyrch, gwasanaethau a dulliau newydd o weithio. Byddwn yn canolbwyntio'r arloesi hyn drwy Dîm Aml-ddisgyblaeth Arloesi i ddewis y prosiectau gorau i'w gweithredu.

Rydyn ni'n canolbwyntio eto ar ein perthnasoedd allanol i gefnogi arloesi gyda phartneriaid academiaidd a Rhaglenni Arloesi Cenedlaethol. Rydyn ni'n cynnal hyn drwy ein Bwrdd Partneriaeth Academiaidd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, partneriaid diwydiant drwy Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru a Llywodraeth Cymru drwy eu hadolygiad 2020 o statws Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Ochr yn ochr â'r tîm Gofal Iechyd Gwerth am Arian ac ABCi, rydyn ni'n ymchwilio i greu model masnacheiddio fydd yn caniatáu i ni greu incwm a chreu cyfleoedd i rannu ein gwaith mewn modd sy'n creu enillion masnacheiddio ariannol cynaliadwy i gefnogi ein gwaith ymhellach.

Rydyn ni hefyd yn adolygu ein polisi a'n prosesau Eiddo Deallusol i alluogi ac i gefnogi masnacheiddio eiddo deallusol y Bwrdd Iechyd.

Byddwn yn datblygu yn ddarparwydd hyfforddiant arloesi awdurdodedig, i ddarparu hyfforddiant ar draws y Bwrdd Iechyd ac ôl troed Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o ddatblygu llif refeniw arloesi.

Mae grŵp arweinyddion Arloesi GIG Cymru sydd ag aelodaeth o holl sefydliadau GIG Cymru, yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth, arbenigedd a chyfleoedd ariannu arloesi gyda chynrychiolwyr Byrddau Iechyd sy'n chwarae rolau actif yn y grŵp.



9.4 Gofal ar Sail Werth

Yn greiddiol i Ofal Iechyd ar Sail Werth (VBHC) mae cynnig y gwerth gorau i bobl; hynny yw, sicrhau'r deilliant gorau i gleifion drwy ddefnyddio adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r system Gofal; symud i ffwrdd oddi wrth system sy'n cael ei gyrru gan gyflenwad wedi'i drefnu o gwmpas yr hyn y mae timau Clinigol a Meddygol yn ei wneud tuag at system person-ganolog o gwmpas yr hyn y mae pobl ei angen.



I gefnogi strategaeth "Cymru Iachach" Llywodraeth Cymru, mae Gofal Iechyd ar sail Werth yn cefnogi cyflenwi drwy ei bartneriaethau, cydweithio a dulliau newydd o gyflenwi cynnyrch a gwasanaethau. Bydd y rhaglen, yn anuniongyrchol, yn cael effaith positif ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; Cymuned Ffyniannus, Hydwyth a Chydlynol a Chymru Fwy Cyfartal. Drwy drefniadau partneriaethau, rydyn ni'n gosod y pwyslais mwyaf ar yr economi a bywiogrwydd GIG y dyfodol.


Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ei weledigaeth i adeiladu a gweithredu Gofal Iechyd ar sail Gwerthoedd tra'n gweithio o fewn Gwasanaeth Iechyd Gwladol sefydledig a chymhleth.

Goliau a llwyddiannau

Rydym wedi datblygu a lansio'r Cit Offer VBHC, sy'n cynnwys y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Deilliannau a Chost ac yn cael ei ddefnyddio ar draws GIG Cymru mewn busnes o ddydd i ddydd i wireddu gwell gwerth mewn cyflenwi gofal ar draws ein systemau.

Mae'r rhaglen VBHC yn defnyddio systemau Gwybodaeth a TG i gyfuno deiliant a data arall i gefnogi Clinigwyr mewn gofal cleifion uniongyrchol. Mae hon yn gôl ganolog i lwyddiant y rhaglen.

Yn 2019, gwelwyd sefydlu Bwrdd Llywio Gofal Iechyd ar sail Werth sydd wedi chwarae rôl hanfodol wrth arwain y gwaith hwn. Gwelwyd twf mewn Clinigwyr yn mabwysiadu dull ar sail Werth gyda syniadau a methodolegau arloesol yn cael eu hystyried ar draws Pob Rhaglen Newid Fawr (e.e. Dyfodol Clinigol). Mae clinigwyr a chleifion yn awr wedi'u harfogi i wella ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu.



Mae rhai o'r dulliau lle defnyddir deiliannau i gefnogi a gwella ansawdd gofal yn cael eu rhestru isod:

1. Gofal Uniongyrchol

Casglu deiliannau (y tu allan i Ysbyty) neu mewn clinig (yn yr Ysbyty) yn union cyn apwyntiadau cleifion i'w hystyried a'u defnyddio yn ystod cylchoedd gofal a neu drwy ymgynghoriadau a rhannu gwneud penderfyniadau.

2. Cylch cyflawn gofal

Mae gallu i gasglu deiliannau'n 'rheolaidd' a neu ddata o bell (y tu allan i Ysbyty) neu mewn clinig (yn yr ysbyty) ar amseroedd penodol yn pwyntio at lwybr (e.e. diagnosis, cyn-driniaeth, ôl-driniaeth a phob 12 mis wedyn).

3. Monitro o bell

Mae'r gallu i fonitro cleifion mewn dull 'rithiol' neu o bell gan leihau'r angen i gleifion fynychu apwyntiadau mewn ysbytai neu glinigau ar adegau pan fyddan nhw'n sefydlog ac nid mewn achos o angen.

4. Angen Mwyaf yn Gyntaf

Y gallu i ofyn am ddeiliannau a gadwyd o bell (y tu allan i Ysbyty) adeg atgyfeirio i helpu i asesu a chynllunio triniaeth, ar y cyd gyda diagnosteg a data clinigol i reoli'n well y galw ar sail angen a chymhlethdodau.

5. Rheolaeth Ddilynol

I leihau apwyntiadau dilynol diangen drwy alluogi dilyniant rhithiol i gleifion, gyda chefnogaeth deiliannau a darparu gallu i fynediad sydyn adeg argyfwng a/neu ddirywiad oherwydd anghenion cleifion.

2020 a thu hwnt

Ein nod yw parhau i gynnwys y dull Gofal Iechyd ar sail Werth fel y dull craidd o weithio drwy alinio Clinigwyr, Rheolwyr a gweithwyr proffesiynol Cyllid o gwmpas un pwrpas. Byddwn yn gweithredu'r dull mewn nifer o feysydd cyflwr ychwanegol yn ystod 2020-21, fydd yn ehangu i mewn i Ofal Sylfaenol. Byddwn ni hefyd yn cysylltu â gweithio mewn partneriaeth o fewn Awdurdodau Lleol i gefnogi dull ar sail Werth at Ofal Cymdeithasol.

10. Cynladwyedd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd yn ddifrifol ei gyfrifoldeb i fod yn gyflogwr amgylcheddol cynaliadwy ac mae'n brwydro i leihau effaith amgylcheddol ei weithgareddau drwy reoli'n rhagweithiol a lleihau treuliant ynni a maint amrywiol llifoedd gwastraff.

Strwythur Rheolaeth

Mae gan y Bwrdd Iechyd Fwrdd Rhaglen Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys agenda helaeth Ynni, Gwastraff, Dŵr a Chynladwyedd. Y cyd-gadeiryddion yw'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol ac Ysgrifennydd y Bwrdd. Cylch gwaith y grŵp yw datblygu agenda cynladwyedd y sefydliad.

Caiff Materion Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol eu trafod ar y cyd gyda Iechyd Amgylcheddol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn Lloegr. Cyflwynir Adroddiadau Digwyddiadau Iechyd Amgylcheddol i'r Partneriaethau Cyhoeddus a'r Pwyllgor Llesiant.

Proffil yr Ystâd

Drwy ddefnyddio data a gasglwyd o System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) a'u haddasu ar gyfer unrhyw newidiadau yn yr ystâd, mae proffil ystâd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 85 adeilad lle rydyn ni'n bresennol gan gynnwys 12 ysbyty gyda chyfanswm arwynebedd llawr gros o 319,980 M².

Uchafbwyntiau Perfformiad

Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio tuag at darged heriol ar gyfer gostwng y carbon o 3% blwyddyn ar ôl blwyddyn fydd yn parhau i adeiladu ar lwyddiannau blaenorol lleihau gollyngiadau.

I barhau i leihau carbon, mae'r Bwrdd Iechyd, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi datblygu Strategaeth Ynni (cymeradwy-wyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020) i ganfod potensial i wneud mwy o arbedion. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu blaenoriaethau presennol, y gyrwyr a'r cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd. Mae'n archwilio sut gellid gwneud i reolaeth carbon o fewn y sefydliad fod yn fwy effeithlon, gydag arfer gorau, technoleg ac arloesi.



Mae'r pum system solar ffotofoltaidd yn parhau i ddarparu trydan gwyrdd i brif adeiladau; eleni, mae'r paneli solar wedi arbed 49,852Kg o Garbon Deuocsid (cyfateb i 49 tonnall fetrig). Mae hwn hefyd yn arbediad trydan sy'n cyfateb i'r hyn a dreulir gan 50 cartref cyffredin yn y DU bob blwyddyn.

10.1. Gollyngiadau Nwy Tŷ Gwydr

Rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd da i leihau ein gollyngiadau CO₂. Ar gyfer 2019/20, roedd y Bwrdd Iechyd yn gollwng 21,651 tonnall fetrig o CO₂ o'r ynni a ddefnyddir i wresogi a rhoi pŵer i'r Ystâd (heblaw am Olchdy Greenvale a Milltiroedd Busnes). Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 6% dros y flwyddyn flaenorol. Dylid nodi bod y gollyngiadau CO₂ dros y cyfnod yn unol â'r canllawiau wedi'u cyfrif dros y cyfnod gyda'r ffactorau trosglwyddo cyhoeddus DEFRA/BEIS.

Ar gyfer y flwyddyn adroddiad hon, mae'r Gollyngiadau Carbon ar gyfer milltiroedd busnes ar gael erbyn hyn (wedi'u cyfrif o werth cyfanswm milltiroedd a chymhwyso math o gerbyd a ffactorau trawsnewid tanwydd cyfartalog). Mae data ar gyfer Golchdy Greenvale hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer eleni. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth ar fin ei drosglwyddo i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o fis Ebrill 2021, a bydd yn ymddangos yn ei enillion o'r dyddiad hynny ymlaen.

Ar gyfer y cyfnod 19/20, mae'r Bwrdd Iechyd wedi prynu trydan gwyrdd o ffynhonnell ardystiedig y gellir ei adnewyddu ar gyfer ei adeiladau Ysbyty a Chlinig; gan ddangos ein hymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol positif a brwydro yn erbyn Newid Hinsawdd.

Drwy sicrhau cytundebau trydan adnewyddadwy, rydyn ni'n helpu i gyflawni targed Llywodraeth Cymru ar gyfer pob corff y Sector

Cyhoeddus yng Nghymru i gael cyflenwadau trydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020 (Strategaeth Carbon Isel – Ffyniant i Bawb). Roedd hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i adrodd am gyfanswm 'net' o Ollfyngiad Carbon ar gyfer treuliant trydan adnewyddadwy a threuliant nwy naturiol a amlygir yn y tabl canlynol.

Hefyd, eleni rydyn ni wedi cyflawni gostyngiad o 4.1% yn y defnydd o drydan ac wedi gweld gostyngiad o 1.5% mewn treuliant nwy (heb gyfrif y Golchdy Greenvale ar gyfer cymhariaeth blwyddyn ar ôl blwyddyn gyson). Mae hyn i'w briodoli i welliannau a wnaed i systemau rheoli adeiladu a buddsoddiad mewn offer mwy effeithlon.

Gollyngiadau Nwy Tŷ Gwydr		2017-18	2018-19	2019-20
Dangosyddion An-Ariannol (1000tCO _{2e})	Cyfanswm Gollyngiadau Gros	26.826	23.045	25.067
	Cyfanswm Gollyngiadau Net	amh*	amh*	16.370
	Gollyngiadau Gros Sgôp 1 (Uniongyrchol)	15.493	14.384	15.759
	Gollyngiadau Gros Sgôp 2 a 3 (Anuniongyrchol)	11.333	8.661	9.309
Treuliant Ynni Perthnasol (miliwn KWh)	Trydan: Anadnewyddadwy	29.710	28.414	27.492
	Trydan: Adnewyddadwy	0.155	0.188	0.181
	Nwy	84.289	78.306	85.715
	LPG	0	0.025	0
	Arall	1.280	0.714	0.283
Dangosyddion Ariannol (£miliwn)	Gwariant ar Ynni	6.067	6.373	6.964
	Gwariant ar Drwydded CRC (2010 ymlaen)	0.500	0.360	n/a*
	Gwariant ar wrthbwysiadau achrededig (e.e. GCOF)	amh*	amh*	amh*
	Gwariant ar deithio busnes swyddogol	amh*	amh*	2.464

*amh - data ddim ar gael, neu nid oes angen i'r Bwrdd Iechyd adrodd yn ôl.

Defnydd o Adnoddau

Fel y dangoswyd yn y tabl isod, roedd treuliant ar draws yr Ystâd wedi gostwng yn 2019/20. Mae hyn oherwydd llai o ollyngiadau ynghyd â'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd, y Sefydliad GIG Cymru cyntaf i arwyddo i'r Rhaglen Aquafund - partneriaeth effeithlonrwydd dŵr 5 mlynedd gydag ADSM Cyf i sicrhau arbedion dŵr a lleihau gwastraff. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau ei dreuliant dŵr ar draws yr Ystâd o 4% blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Treuliant Adnoddau Penodol			2017-18	2018-19	2019-20
Dangosyddion	Dŵr	Cyflenwyd	422	411	395
	Treuliant	Tynnwyd		amh*	amh*
	(Ystâd Swyddfeydd)	fesul FTE	amh*	amh*	0.03
An- Ariannol	Treuliant	Cyflenwyd	amh*	amh*	amh*
	Dŵr				
(000m3)	(Ystâd heblaw swyddfeydd)	Tynnwyd	amh*	amh*	amh*
Dangosyddion	Costau Cyflenwad Dŵr (Ystâd Swyddfeydd)		1.198	1.189	1.056
	Costau Cyflenwad Dŵr (Ystâd heblaw swyddfeydd)		amh*	amh*	amh*
Ariannol (£miliwn)					

*amh - data ddim ar gael neu nid oes angen i'r Bwrdd Iechyd adrodd yn ôl.

10.2. Rheolaeth Amgylcheddol - ISO 14001

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu System Rheolaeth Amgylcheddol (EMS) i'r safon ryngwladol ISO 14001:2015.

Mae'r EMS wedi datblygu i fod y pwynt canolog ar gyfer Gwelliant Amgylcheddol parhaus yn y dyfodol. Mae'n darparu agwedd at reolaeth Mentrau Lleihau Gwastraff, ailgylchu, rheoli ynni a charbon, caffael cynaliadwy a mentrau teithio gwyrdd.

Mae Ardystio'n sicrhau ein bod nid yn unig yn cydymffurfio â deddfwriaeth ond yn mynd y tu hwnt i hyn drwy weithredu arfer gorau yn ein rôl fel sefydliad GIG enghreifftiol ym maes Gwastraff a Rheolaeth Amgylcheddol Gofal Iechyd.



Mae'r sefydliad yn gosod pwysigrwydd mawr ar ardystio parhaus i ISO 14001 a'r sicrwydd mae'n ei ddarparu i'r Bwrdd a'n budd-ddeiliaid.

10.3. Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio gwella perfformiad amgylcheddol ac mae'n parhau i weithio tuag at weithredu agwedd gwastraff sero at dirlenwi gyda 98% o wastraff cyffredinol (bagiau du a sgipiau) yn cael eu gwahanu ar gyfer ail gylchu neu eu hanfon at beiriant Ynni o Wastraff (EFW). Mae'r olaf yn osgoi ei anfon at dirlenwi ac yn darparu ffynhonnell carbon is o ynni. Hefyd, mae cardfwrdd yn cael ei fyrnu mewn cyfleuster yn Ysbyty Gwynllyw, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr.

Mae gwahanu gwastraff heintus yn cael ei werthuso'n barhaus ac, os yn bosibl, yn unol â chanllawiau ac arfer gorau, mae eitemau'n cael eu symud a'u dargyfeirio at opsiwn gwaredu rhatach.

Rydyn ni'n parhau i fod yr unig Fwrdd Iechyd o Gymru ac un yn unig o ddau sefydliad yn y byd sy'n prosesu papur lapio hambyrddau llawfeddygol polypropylen (mewn peiriant Sterimelt).

Yn ystod 2019/20, roedden ni'n dechrau nifer o brosiectau ailgylchu.

Mae'r tabl isod yn amlinellu perfformiad gwastraff dros y tair blynedd ddiwethaf.

Gwastraff		2017-18	2018-19	2019-20
Dangosyddion An-ariannol (tunelli metrig)	Cyfanswm Gwastraff	3212	2910	2976
	Tirlenwi	1681*	495*	142
	Ailddefnydd/ Ailgylchu	680	320	385
	Compost	0	0	0
	Llosgwyd gan adfer ynni	Amh	1274	1581
	Llosgwyd heb adfer ynni	850	822	868
Dangosyddion Ariannol (£ 000)	Cyfanswm Cost Gwaredu	700	681	743
	Tirlenwi	362	95	32
	Ailddefnydd/ Ailgylchu	35	24	37
	Compost	0	0	0
	Llosgwyd gan adfer ynni	Amh	249	346
	Llosgwyd heb adfer ynni	303	313	327

**O fewn y data gwastraff, mae brasamcan o safbwynt pwysau casglu biniau olwyn o Ganolfannau Iechyd a Chlinigau gan nad yw biniau'n cael eu pwyso. Mae hyn yn cyfrif am 2% yn unig o'r holl wastraff cyffredinol.*

10.4. Teithio Cynaliadwy

Yn 2019/20, roedd y Bwrdd Iechyd yn parhau i alinio ei hun i egwyddorion teithio cynaliadwy i wireddu buddion o bersbectif Amgylcheddol, Iechyd a Lles, gostwng costau a logistaidd.

Ffurfiwyd Grŵp Teithio Cynaliadwy Gwent (GSTG) gyda phartneriaid o bum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal Gwent. Disgwylir y bydd

Siarter Teithio Iach y Staff a ffurfiwyd y llynedd, yn cael ei basio yn ystod y misoedd nesaf. Bydd hyn yn ymrwymo'r partneriaid GSTG i nifer o gamau o dan y penawdau canlynol:

- Cyfathrebu ac Arweinyddiaeth
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Cerdded a Beicio
- Gweithio'n Heini
- Cerbydau Gollyngiad Isel iawn

10.5. Bioamrywiaeth a Gwydnwch Dyletswydd Ecosystemau

Fel adlewyrchiad o Bwysigrwydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystem, roedd Llywodraeth Cymru o fewn Adran 6, Rhan 1 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno Gwell Dyletswydd Gwydnwch Bioamrywiaeth Ecosystemau (Dyletswydd S6). Mae hyn yn dweud bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnal a gwella bioamrywiaeth hyd y mae'n gyson gydag ymarfer cywir eu swyddogaeth ac edrych i wella gwydnwch ecosystem drwy 7 Amcan Bioamrywiaeth allweddol wedi'i seilio o gwmpas Prif Restr rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7. Disgwylid i gyrff Cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi eu hadroddiad cyntaf am eu gweithgareddau ac amcanion y dyfodol erbyn diwedd 2019, ac yna bob 3 blynedd.

Ym mis Rhagfyr 2019, roedd y Tîm Gweithredol yn cymeradwyo Adroddiad Datganiad Sefyllfa Dechreuol Bioamrywiaeth y Bwrdd Iechyd sy'n dangos tystiolaeth gweithgareddau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae tystiolaeth o'r effaith positif y mae amgylchedd naturiol yn ei gael ar Lesiant Corfforol a Llesiant Meddwl yn glir gydag ymchwil yn dangos bod natur yn cael effaith positif ar hwyl, straen, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), llid, imiwnedd, adferiad ar ôl llawfeddygaeth a gostyngiad mewn marwoldeb. Mae rhai enghreifftiau o'n gwaith wedi'u hamlinellu isod:

- Taith Coedlan a Gardd Goffa Ysbyty Nevill Hall - taith gerdded actif o gwmpas yr Ysbyty sy'n cynnig cynefin pwll, coedlan fach a phlannu blodau.
- Cymuned Gardd Furiog Llanfrechfa - elusun sy'n cynnwys cyn staff y Bwrdd Iechyd, sy'n adfer gardd furiog Fictorianaid.
- Prosiectau Plannu - ar y cyd gyda Cadwch Gymru'n Daclus a'r Prosiect Sïon Naturiol i blannu blodau gwyllt yn Ysbyty Sant Cadog, Ysbyty'r Tri Chwm ac Ysbyty Aneurin Bevan.
- Ysbyty Athrofaol y Faenor - mae'r amgylchedd naturiol wedi'i

gynnwys wrth gynllunio'r tir o gwmpas gan sicrhau deilliannau mwy positif i gleifion ac ymwelwyr. Cynlluniwyd yr Ysbyty i safon "Rhagoriaeth BREEAM" sy'n golygu bod y lefelau uchaf o ddefnydd cynaliadwy o'r tir, diogelu cynefinoedd a chreu wedi'u hymgorffori.

- **Amcan 1:** Cynnwys Bioamrywiaeth drwy gyfnodau gwneud penderfyniadau ar bob lefel
- **Amcan 2:** Darparu addysg amgylcheddol i godi ymwybyddiaeth/annog gweithredu
- **Amcan 3:** Rheoli tir i hybu Bioamrywiaeth ac Ecosystemau
- **Amcan 4:** Dylanwadu ar reoli tir i wella gwydnwch Ecosystem
- **Amcan 5:** Delio â phwysau ar rywogaethau a chynefinoedd allweddol
- **Amcan 6:** Cefnogi prosiectau tirluniau a phartneriaethau i wneud y gorau o gyflenwi
- **Amcan 7:** Monitro effeithlonrwydd y cynllun ac adolygu

Roedd ein gwaith i hybu cadernid y Bioamrywiaeth a'r Ecosystem a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn yn cynnwys y meysydd isod yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Pandemig COVID-19 wedi esgor ar ail flaenoriaethu rhai o'r meysydd hyn i gyfnod diweddarach yn y flwyddyn:

- Cynnal asesiad ecolegol o adeiladau'r Bwrdd Iechyd a'r tir i ganfod a deall cynefinoedd allweddol, rhywogaethau, cyfleoedd a risgiau.
- Canfod a defnyddio arfer gorau o gyrff eraill yn y Sector Cyhoeddus o fewn ein ffiniau daearyddol.
- Canfod a chydweithio gyda phartneriaid lleol eraill.
- Codi ymwybyddiaeth staff o Fioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol drwy rwydweithiau a ffora presennol.
- Sicrhau proses Rheolaeth a Chraffu priodol i adrodd am gynnydd.

Aquafund a Phrosiect Cymorth Dŵr

Drwy bartneriaeth y Bwrdd Iechyd gydag ADSM Cyf a chyfranogiad yn rhaglen effeithlonrwydd dŵr Aquafund eleni, rydym wedi defnyddio ein harbedion dŵr i gyfrannu at brosiect Cymorth Dŵr i sicrhau dŵr ffres i 49,072 o bobl ym Mozambique wledig. Ynghyd â darparu mynediad at doiled gweithredol i 27,115 o bobl a gostwng y nifer o achosion o ddolur rhydd o 78%, mae'r prosiect hefyd wedi sicrhau 32 o dyllau turio newydd ac 11 system ddŵr solar newydd.

11. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA)

Pam mae'r WBGFA yn flaenoriaeth arweinyddiaeth i'r Bwrdd Iechyd?

Ynghynt yn yr adroddiad hwn, amlygwyd bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r Ddeddf hon ond mae'r Ddeddf hefyd yn helpu i wella'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflenwi ei wasanaethau.

Mae'r darn arloesol hwn o ddeddfwriaeth yn golygu pan fydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud penderfyniadau, rhaid iddo ystyried yr effaith a allai ei gael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Ngwent yn awr a hefyd yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn cyflenwi ei wasanaethau yn unol â'r Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy sy'n golygu bod yn rhaid iddo:

- Ystyried y tymor hir fel nad yw penderfyniadau'n affeithio'n negyddol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion;
- Fabwysiadu dull integredig fel ei fod yn ystyried pob gôl Llesiant wrth benderfynu ar flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd;
- Gynnwys yr amrywiaeth lawn o'i phoblogaeth yn y penderfyniadau sy'n affeithio arnyn nhw;
- Weithio gydag eraill mewn dull cydweithredol i ddarganfod atebion cynaliadwy ar y cyd; a
- Deall pan mae pethau'n digwydd a defnyddio'r wybodaeth hon i atal pethau rhag digwydd neu waethygu.

Yng nghyd-destun y ffocws ar y Pandemig COVID-19, mae nifer o enghreifftiau lle mae'r sefydliad wedi manteisio ar y cyfle i hybu dulliau gweithio mwy cynaliadwy gan gynnwys:

- Sefydlu a chyflenwi Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu Integredig ar draws Gwent - yn gofyn am lefelau effeithlon o gydweithio a gweithio ar y cyd gyda Phartneriaid y Sector Cyhoeddus;
- Dulliau newydd a mwy cynaliadwy o ymgysylltu a thrin Cleifion fel cyflwyno apwyntiadau/ymgynghoriadau rhithiol ar gyfer Meddygon Teulu ac Ymgynghorwyr; a
- Galluogi staff i weithio mewn modd mwy hyblyg ac ystwyth a chynnal Cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau'n rhithiol drwy lwyfannau Cyfarfod Electronig.

I gael mwy o fanylion am yr hyn sydd wedi'i gynnwys o fewn y Ddeddf hon gweler [crynodedb Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf](#).

Mae'r Ddeddf yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau a'i amcanion pwysicaf. I ganiatáu i ni gyflawni hyn, rydym wedi gosod deg Amcan Llesiant. Mae'r amcanion hyn yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddangos sut rydyn ni'n cyfrannu'n benodol at bob un o'r Goliau Llesiant Cenedlaethol i Gymru a oedd wedi'u cynnwys o fewn y Ddeddf.

Cytunwyd ar amcanion Llesiant y Bwrdd Iechyd drwy drafodaeth fewnol gyda staff a thrafodaeth ehangach gyda budd-ddeiliaid eraill yn gynnar yn 2017. Fodd bynnag, i sicrhau eu bod yn dal i fod y rhai cywir i'r Bwrdd Iechyd, byddan nhw'n cael eu hadolygu cyn diwedd 2020.

Mae'r amcanion hyn wedi sefydlu fframwaith i ddangos sut gall y Bwrdd Iechyd barhau i weithio i gyflenwi ei wasanaethau, cyfrifoldebau a gwaith gyda'r partneriaid. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod y Ddeddf yn ganolog i'n rhaglen trawsnewid Dyfodol Clinigol sef, fel yr amlygwyd ynghynt, Strategaeth Trawsnewid y Bwrdd Iechyd.

Ar draws Is-ranbarthau ac Adrannau'r Bwrdd Iechyd, mae'r trawsnewid ar waith o fewn y rhaglen Dyfodol Clinigol sy'n cynnwys dylunio gwasanaethau, ail fodelu a thrawsnewid. Fel rhan o'r egwyddorion dylunio y cytunwyd arnyn nhw gan y Bwrdd Cyflawni Dyfodol Clinigol, mae'r egwyddorion wedi'u hegluro a'u hintegreiddio i mewn i'n dulliau cynllunio.

Mae'r amcanion allweddol trawsnewid hefyd yn adlewyrchu'r egwyddor datblygiad cynaliadwy ac wedi'u halinio i Amcanion Llesiant a gytunwyd gan y Bwrdd Iechyd:

- Cyflenwi mwy o ofal yn nes i gartrefi o fewn lleoliad Gofal Sylfaenol a Chymuned;
- Gwella profiad cleifion; a
- Chreu system ofal cynaliadwy.



Caiff yr uchelgais hwn ei wireddu'n llwyr dim ond drwy gydweithio ac integreiddio'n llwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws y Sector Cyhoeddus ac mewn partneriaeth gyda chleifion, eu gofalgwyr a'r Cyhoedd. Rhaid bod yn gyson a phenderfynol o blannu dulliau o weithio dros y tymor hwy gael eu seilio ar integreiddio, cydweithio, cyfranogi ac atal. Bydd Rhaglen Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd a rhaglen Plannu'r WBFGA yn drefniadau allweddol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir o fewn blaenoriaethau 'Creu Gwent Iachach' y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda'i staff i'w helpu i ddeall y newidiadau positif y gellir eu gwneud drwy gymhwyso'r Ddeddf i'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Mae canllawiau WBFGA Llywodraeth Cymru'n amlygu saith maes craidd y Bwrdd Iechyd fydd yn cyflawni'r newid a ddisgwylir gan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys: Corfforaethol, Cyllid a Chynllunio Gweithlu, Rheoli Risg a Pherfformiad, Asedau a Chaffael.

Rhan allweddol o'i uchelgais yw plannu egwyddorion y Ddeddf i mewn i DNA y Bwrdd Iechyd. Mae wedi gofyn i bob Is Adran a Swyddogaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu naratif a phrif gamau uchelgais wedi'u seilio o gwmpas y pum dull o weithio. Defnyddir y rhain i helpu i lunio sut bydd pob Is adran/swyddogaeth yn cyflenwi'r newid a ddisgwylir i gyflawni uchelgeisiau tymor hir y Bwrdd Iechyd.

Mae nifer o enghreifftiau lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ei ymdrechion i gyflenwi egwyddorion y Ddeddf. Mae rhai o'r gweithgareddau mwyaf diweddar yn cynnwys:

11.1 Datblygu gwasanaethau newydd yng nghyd-destun y WBFGA

Tua canol 2019, lansiodd y Bwrdd Iechyd dîm newydd o Weithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd ar draws Gwent i gydweithio i lunio a chynnal Gwasanaeth Rheoli Pwysau plant a theuluoedd, "Cyswllt", i wella eu Hiechyd Corfforol ac Emosiynol ac i drin cymhlethdodau gordewdra. Datblygwyd hwn fel partneriaeth rhwng Gwasanaethau Corfforol a Iechyd Meddwl.

Lluniwyd y gwasanaeth gydag Egwyddorion y Ddeddf yn ganolog gan ddefnyddio fframwaith oedd yn hybu cydweithio, meddwl tymor hir ac ataliol. Roedd datblygu gwasanaeth newydd (y cyntaf yng Nghymru) yn gofyn am ymddiriedaeth, cymryd risg a chymorth gan Uwch Arweinwyr o fewn y sefydliad i ymrwymo adnoddau lle na fyddai deilliannau'n amlwg yn y tymor byr efallai. Mae'r gwaith arloesol hwn hefyd wedi'i gynnwys fel astudiaeth achos allweddol gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad diweddar, *"Felly, beth sy'n wahanol? - Darganfyddiadau o Brif Archwiliadau Datblygiad Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol - Mai 2020"*.

Beth yw bwriad nesaf y Bwrdd Iechyd o safbwynt y WBFGA?

Mae Amcanion Llesiant y Bwrdd Iechyd a'r dull o adrodd a monitro yn dal i esblygu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos cynnydd positif wrth gyflawni ei ddeg amcan Llesiant ac mae nifer o enghreifftiau o gamau/ weithgareddau sydd wedi'u cynnal ar draws yr Is adrannau ynghyd â swyddogaethau galluogi sy'n dangos hyn yn glir.

Gellir gweld cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei ddeg Amcan Llesiant ar gyfer 2019-20 yn y tabl isod. Mae hyn yn amlygu'r cynnydd cymharol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gyflawni yn erbyn pum cam "Gwiriwr Siwrne" Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol.

<i>Ein Hamcanion Llesiant</i>	<i>B'le rydyn ni nawr</i>
1 – Cefnogi pob rhiant sy'n disgwyl plentyn a rhoi cymorth i bob plentyn yng Ngwent i sicrhau'r dechrau bywyd gorau	Bod yn Fwy Anturus
2 – Cefnogi oedolion a phlant yng Ngwent i fyw'n iach ac i heneiddio'n iach fel eu bod yn gallu byw'n annibynnol a mwynhau ansawdd bywyd da yn ystod eu henaint	Gwneud Newidiadau Syml
3 – Hybu Llesiant Meddwl fel Sylfaen i iechyd, creu cymuned bersonol a chymunedol	Bod yn Fwy Anturus
4 – Annog cyfranogiad pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maen nhw'n eu cefnogi mewn penderfyniadau ar y cyd am eu hiechyd eu hunain a'u cynlluniau gofal ac mewn cynllunio a gwerthuso gwasanaeth ehangach fel ein bod ni, gyda'n partneriaid, yn cyflenwi'r deilliannau sydd o'r pwys mwyaf i bobl	Gwneud Newidiadau Syml
5 - Sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd effeithlon gorau o adnoddau GIG wrth gyflawni deilliannau a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaethau a chleifion drwy systemau cyfathrebu monitro ac olrhain rhagorol ym mhob maes clinigol	Perchnogi ein Huchelgais
6 - Hyrwyddo Gweithlu amrywiol sy'n gallu arddangos eu traddodiad diwylliannol gyda chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	Gwneud Newidiadau Syml
7 - Datblygu ein staff i fod y gorau y gallan nhw fod gyda lefelau uchel o lesiant cyfogai ac, fel y cyflogwr mwyaf yng Ngwent, hyrwyddo gyrfaedd GIG a darparu cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith	Bod yn Fwy Anturus
8 - Lleihau ein heffaith amgylcheddol negyddol drwy raglen creu cyfalaf cyfrifol a dull cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau adeiladu gan gynnwys rheoli carbon a gwastraff, cynnal caffael ar sail cost cylch bywyd cyfan a chefnogi caffael yn lleol, hybu teithio cynaliadwy ac actif a hyrwyddo gwelliannau mewn iechyd amgylcheddol	Gwneud Newidiadau Syml
9 – Cynllunio a sicrhau gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy a hygyrch yn ymestyn o atal hyd at adsefydlu ac adfer sy'n cyflawni anghenion y presennol a'r dyfodol ac yn delio ag anghyfartaleddau iechyd a lefelau gwahanol angen ar draws ein cymunedau.	Perchnogi ein Huchelgais
10 – Parhau i integreiddio ein camau gyda phartneriaid ehangach y sectorau cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau llyfn system gyflawn ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maen nhw'n eu cefnogi.	Perchnogi ein Huchelgais

11.2 Rheoliad Allanol y WBFGA

Ym mis Ionawr 2020, adroddodd **Archwilio Cymru** (Swyddfa Archwilio Cymru gynt) am ei adolygiad Archwiliad WBFGA o "ddatblygiad Gwasanaeth Arbenigol Rheoli Pwysau Plant a Theuluoedd – Cyswllt". Er bod Archwilio Cymru wedi canfod nifer o gyfleoedd datblygu, casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd *"Darganfu ein harchwiliad bod y Bwrdd Iechyd yn dangos cynnydd wrth blannu egwyddor datblygiad cynaliadwy wrth lunio gwasanaethau ac mae'n amlwg ei fod wedi'i ystyried wrth ddatblygu Cyswllt."*

Ym mis Awst 2019, roedd y **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** yn ymateb i Hunan-fyfyrion'r Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ym mis Ionawr 2019. Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn hynod positif. Er bod y Comisiynydd wedi amlygu nifer o feysydd a fyddai'n helpu'r Bwrdd Iechyd i barhau i ddangos cynnydd, roedd y Comisiynydd yn croesawu ein dull positif at ein hunan-fyfyrion a'r ymdrech fawr iawn a wnaed i gasglu tystiolaeth a darparu darlun teg o gynnydd.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau ar ei siwrne i lwyr blannu'r Ddeddf yn ei waith. Er bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull rhagweithiol i blannu egwyddorion y Ddeddf yn sut mae'n plannu, dylunio a chyflenwi ei wasanaethau, mae'n cydnabod bod llawer eto i'w wneud. Mae'r Ddeddf yn parhau yn flaenoriaeth arweinyddiaeth i'r Bwrdd Iechyd a, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae nifer o gamau a fydd yn ei alluogi ymhellach i barhau i gyflawni yn erbyn gobeithion y Ddeddf, i blannu pum dull o weithio ar draws ei swyddogaethau a dangos cynnydd yn erbyn ei Hamcanion Llesiant.

12. Crynodeb

Edrych Ymlaen

Byddwn yn parhau fel sefydliad i ddatblygu ein gwelliannau a'n datblygiadau. Byddwn yn parhau i gynnal ein busnes yn agored ac yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ein perfformiad.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am ein gwasanaethau i roi sicrwydd i'n dinasyddion a'r budd-ddeiliaid bod ein gwasanaethau'n effeithiol, yn effeithlon, yn briodol ac wedi'u dylunio i gyflawni eu hanghenion a'u disgwyliadau.

Cysylltiadau Defnyddiol


Gobeithio eich bod yn teimlo bod yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Drwy gydol yr adroddiad, rydym wedi cyfeirio at ddogfennau ac adroddiadau eraill sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am y flwyddyn 2019/20, sef:

- **Datganiad Ansawdd Blynyddol 2019/20**
- **Adroddiad Atebolrwydd, Datganiad Rheolaeth Blynyddol a Chyfrifon Ariannol 2019/20**

Gellir gweld yr adroddiadau hyn drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/>

Diolch i Dr Nick Mason (ffotograffydd) a Nathan Wyburn (arlunydd
- www.nathanwyburn.co.uk) am y llun ar glawr blaen yr
Adroddiad Blynyddol hwn.



Cysylltwch â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd drwy ddedfnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Y Pencadlys
Ysbyty Sant Cadog
Ffordd y Lodge
Caerllion
Casnewydd
NP18 3XQ

Ffôn: 01633 436700,neu e-bost: abhb.enquiries@wales.nhs.uk